



Department
for Environment
Food & Rural Affairs



Department
of Energy &
Climate Change

Cais am Dystiolaeth

Yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd

Mai 2013

*Review of the
Balance of Competences*

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Cais am dystiolaeth	3
Cwmpas yr adroddiad hwn	4
Rhesymeg dros gamau gweithredu'r UE ynglŷn â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd	7
Cyd-destun strategol.....	9
Materion llorweddol allweddol.....	10
Polisi ynglŷn â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd	14
Newid yn yr hinsawdd.....	1
Dŵr a morol	17
Ansawdd aer.....	17
Llygredd diwydiannol	19
Cemegion	19
Organeddau a addaswyd yn enetig.....	20
Gwastraff	21
Diogelu natur / bioamrywiaeth	21
Sŵn.....	24
Asesiad o'r effaith amgylcheddol.....	25
Rhwymedigaeth amgylcheddol.....	25
Trosedd amgylcheddol	26
Y dimensiwn allanol	26
Datblygu polisiâu a strategaethau annedfwriaethol yn y dyfodol.....	28
Defnydd o adnoddau/effeithlonrwydd	29
Eco-arloesi.....	29
Addasu at newid yn yr hinsawdd	29
Cais am dystiolaeth - cwestiynau	30

CAIS AM DYSTIOLAETH YNGLŶN AG ADOLYGIAD Y LLYWODRAETH O GYDBWYSEDD Y CYMWYSEDDAU RHWNG Y DEYRNAS UNEDIG A'R UNDEB EWROPEAIDD

Yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd

Dyddiad cau: 12 Awst 2013

Cyflwyniad

1. Mae'r adolygiad hwn yn rhan o ymrwymiad gan y Glymblaid i ystyried cydbwysedd y cymwyseddau rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd (UE). Bydd yr adolygiad yn rhoi dadansoddiad o'r hyn y mae aelodaeth o'r UE yn ei olygu o ran budd cenedlaethol y DU. Ei nod yw dwysau dealltwriaeth y cyhoedd a'r Senedd o natur ein haelodaeth o'r UE a chynnig cyfraniad adeiladol a difrifol at y ddadl Ewropeaidd genedlaethol ac ehangach ynglŷn â moderneiddio, diwygio a gwella'r UE yn wyneb heriau a wynebir gan bawb. Ni ofynnwyd i ni lunio argymhellion penodol nac ystyried modelau amgen ar gyfer perthynas gyffredinol y DU â'r UE.
2. Mae'r adolygiad wedi'i rannu'n gyfres o adroddiadau ar feysydd penodol o gymhwysedd yr UE dros bedwar tymor rhwng hydref 2012 a hydref 2014. Arweinir yr adolygiad gan Lywodraeth y DU ond bydd hefyd yn cynnwys arbenigwyr anllywodraethol, sefydliadau a busnesau ac unigolion eraill sydd am gynnig eu barn. Gofynnir i lywodraethau tramor, gan gynnwys ein partneriaid yn yr UE a sefydliadau'r UE gyfrannu hefyd.
3. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) ar y cyd â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) sy'n arwain yr adolygiad hwn o'r cydbwysedd o gymwyseddau ynglŷn â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd. Mae gwella'r amgylchedd a thyfu economi wledig y DU yn flaenoriaethau allweddol i Defra, tra bod DECC yn gweithio i hyrwyddo camau gweithredu rhyngwladol i liniaru newid yn yr hinsawdd.

Cais am dystiolaeth

4. Mae'r cais cyhoeddus hwn am dystiolaeth yn nodi cwmpas yr adolygiad o'r cydbwysedd o gymwyseddau ym meysydd yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd. Gofynnwn am gyfraniadau gan unrhyw un sy'n meddu ar y wybodaeth, yr arbenigedd neu'r profiad perthnasol.

Anfonwch eich tystiolaeth i balanceofcompetence.enviro@defra.gsi.gov.uk erbyn 8 Awst 2013. Dylid defnyddio'r un cyfeiriad e-bost ar gyfer unrhyw ymholiadau cysylltiedig.

5. Dylai eich tystiolaeth fod yn wybodaeth ffeithiol, wrthrychol, am effaith y cymhwysedd yn eich maes arbenigedd. Disgwylwch gyhoeddi'ch ymateb ac enw eich sefydliad oni bai eich bod yn gofyn i ni beidio â gwneud hynny (ond noder, hyd yn oed os ydych yn gofyn i ni gadw eich cyfraniad yn gyfrinachol, efallai y bydd yn rhaid i ni ei gyhoeddi mewn ymateb i gais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth). Ni fyddwn yn cyhoeddi eich enw eich hun oni bai eich bod am iddo gael ei gynnwys. Seiliwch eich ymateb ar y cwestiynau a restrir ar dudalen 30 a nodwch yn glir y maes pwnc (meysydd pwnc) rydych yn cyfeirio ato (atynt).

Datganoli

6. Menter gan Lywodraeth y DU yw'r adolygiad o gydbwysedd y cymwyseddau. Materion datganoledig yw'r meysydd pwnc a gwmpesir gan yr Adroddiad ar yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd lle mae gweinyddiaethau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gyfrifol am weithredu deddfwriaeth yr UE felly bydd eu barn hwy yn ffactor pwysig. Dylai'r materion gael eu hystyried o safbwynt buddiannau'r DU gyfan a chan mai adolygiad i'r DU gyfan ydyw, byddem yn annog cyfraniadau gan bartïon â diddordeb o bob rhan o'r DU.

Cwmpas yr adroddiad hwn

7. Mae'r adolygiad hwn yn seiliedig ar bwnc yn hytrach na Chytuniad; byddwn yn

Beth yw cymhwysedd?

At ddibenion yr adolygiad hwn, rydym yn defnyddio diffiniad eang o gymhwysedd. Yn syml, ystyr cymhwysedd yn y cyd-destun hwn yw popeth sy'n deillio o gyfreithiau'r UE sy'n effeithio ar yr hyn sy'n digwydd yn y DU. Golyga hynny ystyried yr holl feysydd lle mae'r Cytuniadau yn rhoi cymhwysedd i'r UE weithredu, gan gynnwys y darpariaethau yn y Cytuniadau sy'n rhoi'r pŵer i sefydliadau'r UE ddeddfu, cymryd camau anneddfwriaethol, neu gymryd unrhyw fath arall o gamau. Ond golyga hefyd ystyried meysydd lle mae'r Cytuniadau yn gymwys yn uniongyrchol i'r Aelod-wladwriaethau heb fod angen unrhyw gamau gweithredu pellach gan sefydliadau'r UE.

Nodir cymwyseddau'r UE yng Nghytuniadau'r UE, sy'n rhoi'r sail dros unrhyw gamau y mae sefydliadau'r UE yn eu cymryd. Dim ond o fewn terfynau'r cymwyseddau a roddwyd iddo o dan y Cytuniadau y gall yr UE weithredu, a lle nad yw'r Cytuniadau yn rhoi cymwyseddau i'r UE maent yn aros gyda'r Aelod-wladwriaethau.

Mae gwahanol fathau o gymhwysedd: cyfyngol, a rennir ac ategol. Dim ond yr UE a all weithredu mewn meysydd lle mae ganddo gymwyseddau cyfyngol, megis yr undeb tollau a'r polisi masnachol cyffredin. Mewn meysydd o gymhwysedd a rennir, megis y farchnad fewnol, yr amgylchedd ac ynni, ni chaiff yr UE na'r Aelod-wladwriaethau weithredu, ond gellir atal yr Aelod-wladwriaethau rhag gweithredu unwaith bod yr UE wedi gwneud hynny. Mewn meysydd o gymhwysedd ategol, megis diwylliant, twristiaeth ac addysg, gall yr UE a'r Aelod-wladwriaethau weithredu, ond nid yw camau gweithredu gan yr UE yn atal yr Aelod-wladwriaethau rhag gweithredu eu hunain.

Mae'n rhaid i'r UE weithredu yn unol â hawliau sylfaenol fel y'u nodwyd yn y Siarter o Hawliau Sylfaenol (megis rhyddid mynegiant a dim gwahaniaethu) ac ag egwyddorion sybsidiaredd a chymesuredd. O dan egwyddor sybsidiaredd, lle nad oes gan yr UE gymhwysedd cyfyngol dim ond os yw mewn gwell sefyllfa i weithredu na'r Aelod-wladwriaethau oherwydd maint neu effeithiau'r camau arfaethedig y gall wneud hynny. O dan egwyddor cymesuredd, ni ddylai cynnwys na'r math o gamau a gymerir gan yr UE fynd y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen i gyflawni amcanion cytuniadau'r UE.

canolbwyntio ar gymhwysedd yr UE mewn perthynas â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd a sut y caiff ei arfer yn ymarferol. Mae hwn yn faes cymhleth iawn sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o faterion, y mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u cysylltu â'i gilydd mewn sawl ffordd. Er enghraifft, mae newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth, adnoddau naturiol, yr amgylchedd ac iechyd eu hunain yn gydgyssylltiedig ond mae hefyd gydberthynas annatod rhyngddynt hwy a pholisïau eraill megis amaethyddiaeth, ynni a thrafnidiaeth, sydd hefyd yn ddarostyngedig i gymhwysedd yr UE, ac i egwyddorion megis y gallu i symud nwyddau'n ddirwysr.

8. Mae'r Cais hwn am Dystiolaeth yn cwmpasu'r prif feysydd polisi a deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd. Nid ydym wedi ceisio rhestru pob darn o ddeddfwriaeth amgylcheddol yr UE; mae rhestr ar wahân o'r [ddeddfwriaeth bwysicaf ar gael yn https://consult.defra.gov.uk/eu/balance_of_competences](https://consult.defra.gov.uk/eu/balance_of_competences). Mae 'newid yn yr hinsawdd' yn y ddogfen hon yn cwmpasu cyd-drafodaethau rhyngwladol, lleihau cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr Aelod-wladwriaethau'r UE drwy 'drefniadau rhannu baich' a System Masnachu Allyriadau yr UE (EU-ETS). Nid yw'n cynnwys ynni adnewyddadwy (sydd, er ei fod yn amlwg yn gysylltiedig â'r hinsawdd a'r amgylchedd, hefyd yn ymwneud â sicrwydd cyflenwad) nac effeithlonrwydd ynni, y caiff y naill a'r llall eu trafod yn yr Adroddiad Ynni – gweler isod).
9. Bydd yr adroddiad ar yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd yn cyffwrdd â thestun nifer o'r adroddiadau eraill sy'n cael eu paratoi fel rhan o'r ymarfer hwn. Caiff tystiolaeth a gyflwynir i un adroddiad sy'n berthnasol i eraill ei rhannu. Er enghraifft, os cyflwynir tystiolaeth ynglŷn â thargedau ynni adnewyddadwy mewn perthynas â'r adroddiad ar yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd caiff ei throsglwyddo i gael sylw yn yr adroddiad ar Ynni (tymor 3); ymdrinnir â thystiolaeth sy'n ymwneud â chymhwysedd yr UE ar gyfer ystadegau yn un o'r adroddiadau ar faterion trawsbynciol yn ystod tymor 4. Caiff canfyddiadau a dadansoddiadau sy'n dod i'r amlwg eu rhannu hefyd. Amlinellir rhai o'r adroddiadau eraill sydd fwyaf perthnasol i'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd isod; mae rhestr o'r prif faterion ffiniol ag adroddiadau eraill ar gael yn https://consult.defra.gov.uk/eu/balance_of_competences. Am ragor o fanylion, gan gynnwys sut y gallwch gyfrannu tystiolaeth i'r adroddiadau hyn, ewch i: www.gov.uk/review-of-the-balance-of-competences.
 - Bydd **Ynni** (tymor 3, yn dechrau yn ystod hydref 2013) yn cynnwys nifer o faterion sy'n gysylltiedig iawn â chymhwysedd yr UE dros newid yn yr hinsawdd, o ystyried y cysylltiadau amlwg a sylfaenol rhwng y defnydd o ynni ac allyriadau nwyon tŷ gwydr. Annog mwy o effeithlonrwydd ynni a lleihau'r defnydd o danwyddau ffosil yw'r ffyrdd allweddol y bydd yr UE yn eu defnyddio i geisio cyflawni ei amcanion o ran newid yn yr hinsawdd. Dyma sail pecyn hinsawdd ac ynni "20-20-20" yr UE, a fabwysiadwyd yn 2007, gyda'r nod o wneud y canlynol:
 - lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 20% o lefelau 1990 erbyn 2020;
 - cynnydd cyfran yr ynni a ddefnyddir yn yr UE o adnoddau adnewyddadwy 20% erbyn 2020;
 - gwella effeithlonrwydd ynni'r UE 20% erbyn 2020.

Caiff yr elfennau o becyn "20-20-20" sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni a chmau eraill i sicrhau lleihad mewn allyriadau yn y sector ynni, gan gynnwys defnyddio prosesau dal a storio carbon eu cwmpasu yn yr Adroddiad ar Ynni. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth o'r holl ddeddfwriaeth a

thargedau effeithlonrwydd ynni, deddfwriaeth a thargedau ynni adnewyddadwy gyfredol ac yn y dyfodol, a deddfwriaeth ar gyfer hyrwyddo a rheoleiddio prosesau dal a storio carbon yn ogystal â buddsoddi mewn seilwaith ynni a'r trefniadau rheoleiddio ar gyfer chwilio am olew a nwy ac ar gyfer ynni niwclear.

Caiff tystiolaeth a gyflwynir mewn ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth sy'n adlewyrchu'r cysylltiadau â chymhwysedd yr UE ym maes ynni eu hystyried hefyd yn yr Adroddiad ar Ynni.

- Bydd **Trafnidiaeth** (tymor 2, sy'n cyd-redeg â'r Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd) yn ystyried datblygiad y Polisi Trafnidiaeth Cyffredin ac yn canolbwyntio ar bum thema allweddol, y mae un ohonynt yn ymwneud yn benodol â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd (lleihau effeithiau sŵn, lygredd, allyriadau niweidiol a nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth). Mae'r sector trafndiaeth yn parhau i fod yn ffynhonnell o bwysau amgylcheddol sylweddol, gydag allyriadau o drafnidiaeth yn brif ffynhonnell o allyriadau nwyon tŷ gwydr yr UE. Mae allyriadau trafndiaeth hefyd yn cyfrannu at ansawdd aer gwael a phroblemau sŵn, yn enwedig mewn ardaloedd trefol. At hynny, gall seilwaith trafndiaeth roi pwysau ar fioamrywiaeth ac ecosystemau drwy ddarnio tirweddau ac ecosystemau a'r defnydd o symiau mawr o ddeunyddiau crai.

Bydd yr adroddiad ar yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd yn cwmpasu materion megis ansawdd aer, nwyon tŷ gwydr, y System Masnachu Allyriadau (sy'n cynnwys y sector hedfan) ac addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Caiff ansawdd aer ei ystyried yn yr adroddiad ar yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd, ond mae allyriadau o drafnidiaeth yn effeithio ar ansawdd aer, a chaiff hynny ei gynnwys yn yr adroddiad ar Drafnidiaeth. Bydd y graddau y caiff rhai o'r materion hyn sylw yn y naill adroddiad neu'r llall neu'r ddau adroddiad yn dibynnu ar bwysau'r dystiolaeth sy'n dod i law; mae sŵn awyrennau, er enghraifft, yn fwy tebygol o godi o dan Drafnidiaeth. Fodd bynnag caiff tystiolaeth berthnasol ei rhannu a bydd cysylltiadau a chroesgyfeirio priodol yn y ddau adroddiad.

- **Y Farchnad Fewnol:** Mae potensial am gryn dipyn o orgyffwrdd rhwng yr adroddiad ar yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd a'r adroddiad ar y Farchnad Fewnol (Adroddiad Synoptig (tymor 1); Symud Nwyddau'n Ddirwystr (tymor 2); Symud Gwasanaethau'n Ddirwystr (tymor 3). Roedd llawer o ddeddfwriaeth gynnar yr UE ynglŷn â'r amgylchedd yn ymwneud â safonau cyffredin, a gafodd eu mabwysiadu o dan sylfaen gyfreithiol 'marchnad fewnol' yn absenoldeb darpariaeth benodol i ddiogelu'r amgylchedd. Mae'n debygol y bydd ychydig drafodaeth ynglŷn â safonau yn yr adroddiad ar yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd, fel yr amlinellir ym mharagraffau 25-26 isod.

Bydd yr adroddiad **Y Farchnad Fewnol:** ystyried masnach mewn nwyddau o fewn yr UE o fewn y farchnad fewnol, yn ogystal â'r ffordd y caiff y fasnach hon ei rheoleiddio; gan gynnwys drwy reoleiddio cynhyrchion, diogelwch cynhyrchion a labeli ansawdd, gwyliadwriaeth o'r farchnad a safoni. Bydd hefyd yn ystyried rheolaethau tollau wrth ffin allanol yr undeb tollau ac wrth ffin y DU a rôl

Symud Nwyddau'n Ddirwystr yn

Roedd gan y farchnad fyd-eang ar gyfer Nwyddau a Gwasanaethau Amgylcheddol Carbon Isel drosiant amcangyfrifedig o £3.3tr yn 2010/11, gydag Ewrop yn cyfrif am tua 28% o werthiannau. Trosiant y DU ar gyfer y sector LCEGS oedd £122.2bn yn 2010/11 (y chweched mwyaf yn y byd) a rhagwelir cyfradd twf o 5% hyd at 2014/15.

tollau i hwyluso masnach, ond ni fydd yn cwmpasu masnach allanol (trydedd wlad) mewn nwyddau gan y caiff hyn ei ystyried yn yr adroddiad ar Fasnach a Buddsoddi. Mae marchnad sylweddol yn yr UE ac yn fyd-eang mewn nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, ac felly bydd gorgyffwrdd hefyd rhwng yr adroddiad ar yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd a'r adroddiad ar **y Farchnad Fewnol: Symud Gwasanaethau'n Ddirwystr**.

- Bydd **Amaethyddiaeth** yn cwmpasu'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) gan gynnwys yr agweddau arno sy'n ymwneud â'r farchnad fewnol. Caiff y nifer fawr o effeithiau amgylcheddol sy'n deillio o amaethyddiaeth eu cwmpasu yn yr Adroddiad ar yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd; mae'r rhain yn cynnwys llygredd dŵr gwasgaredig ac allyriadau nwyon tŷ gwydr a llygryddion aer.
- Bydd **Pysgodfeydd** yn cwmpasu'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a materion eraill sy'n ymwneud â physgodfeydd ond caiff materion ehangach ar yr amgylchedd morol eu cwmpasu yn yr Adroddiad ar yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd.

Rhesymeg dros gamau gweithredu'r UE ynglŷn â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd

10. Ysgogwyd y ddeddfwriaeth amgylcheddol gynnar gan yr UE yn bennaf oherwydd pryderon ynglŷn â safonau amgylcheddol cenedlaethol gwahanol a allai ystumio cystadleuaeth a thanseilio'r farchnad gyffredin. Fodd bynnag o ddechrau 1970au cafodd deddfwriaeth a oedd wedi'i hanelu'n benodol at ddiogelu'r amgylchedd ei chyflwyno'n raddol yng nghyd-destun pryder cynyddol ymhlith y cyhoedd ynglŷn â diraddio amgylcheddol. Mae diogelu'r amgylchedd a hwyluso masnach o fewn y farchnad fewnol yn sdwy thema sy'n llywio camau gweithredu'r UE yn y maes hwn.
11. Erbyn diwedd y 1980au bu mwy o ddealltwriaeth wyddonol o effaith gweithgarwch dynol yn ogystal â phryder cynyddol ymhlith y cyhoedd ynglŷn â'r amgylchedd yn gyffredinol a chynnydd mewn aelodaeth o sefydliadau a phleidiau gwleidyddol 'gwyrdd'. Gwnaeth y cyfnod hwn gyd-daro â mabwysiadu'r Ddeddf Ewropeaidd Sengl yn 1986, a gyflwynodd sylfaen Cytuniad penodol dros gamau gweithredu gan yr UE i ddiogelu'r amgylchedd. Drwy'r sbardun a roddodd i greu'r farchnad fewnol, arweiniodd hefyd at gysoni safonau allyriadau er mwyn osgoi ystumio cystadleurwydd diwydiannol. Yn yr un modd, nod cysoni rheoliadau cynhyrchu oedd ceisio osgoi rhwystrau nad oeddent yn ymwneud â thariffau ond a oedd hefyd yn arwain at gysoni safonau amgylcheddol. Mae'r berthynas rhwng twf economaidd a

O dan gytuniad gwreiddiol Cytuniad Rhufain, nid oedd unrhyw sylfaen gyfreithiol benodol dros fesurau amgylcheddol. Fodd bynnag, mabwysiadodd yr UE lawer o fesurau amgylcheddol gan ddefnyddio ei bwerau i reoleiddio'r farchnad fewnol neu o dan y pŵer cyffredinol (Erthygl 352 TFEU bellach) i fabwysiadu deddfwriaeth i hyrwyddo amcanion yr UE lle nad oes sylfaen gyfreithiol benodol. Cadarnhaodd Llys Cyfiawnder Ewrop fod hyn yn ddilys, gan gadarnhau bod diogelu'r amgylchedd yn un o amcanion hanfodol yr UE.

Yn 1986, cynhwysodd y Ddeddf Ewropeaidd Sengl ddarpariaeth amgylcheddol benodol yn y Cytuniadau am y tro cyntaf. Addasodd Cytuniad Maastricht, a ddaeth i rym yn 1993, y darpariaethau hyn gan ymestyn y defnydd o bleidleisio mwyafrifol amodol. Cyflwynodd hefyd ofyniad y dylai materin amgylcheddol gael eu hintegreiddio â pholisïau eraill yr UE.

Mae'r pwerau bellach wedi'u nodi yn Erthyglau 191-193 TFEU ac am y tro cyntaf maent yn cynnwys cyfeiriad penodol at wrthsefyll newid yn yr hinsawdd.

diogelu'r amgylchedd yn gymhleth. Gall gweithgarwch economaidd, o'i gynnal yn briodol, hefyd arwain at fuddiannau amgylcheddol, ond gall cydymffurfiaeth â rhai cyfarwyddebau amgylcheddol (megis Cyfarwyddebau Trin Nitradau a Dŵr Gwastraff Trefol) ofyn am gryn fuddsoddiad gan y wladwriaeth a/neu arwain at gostau uwch i fusnesau a defnyddwyr.

Mae'r amgylchedd yn cael lle pwysig yng Nghytuniadau'r UE. Mae Erthygl 3(1) o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd yn gwneud diogelu a gwella'r amgylchedd yn un o amcanion allweddol y farchnad fewnol:

"The Union shall establish an internal market. It shall work for the **sustainable development** of Europe based on balanced economic growth and price stability, a highly competitive social market economy, aiming at full employment and social progress, and **a high level of protection and improvement of the quality of the environment**".

Mae Erthygl 11 o'r Cytuniad ar Weithredu'r Undeb Ewropeaidd (TFEU) yn nodi bod yn rhaid i holl bolisïau'r UE ystyried anghenion diogelu'r amgylchedd:

"**Environmental protection requirements** must be integrated into the definition and implementation of the Union's policies and activities, in particular with a view to **promoting sustainable development**".

Mae Erthygl 191 (2) TFEU hefyd yn nodi rhai egwyddorion sylweddol sy'n llywodraethu polisi amgylcheddol yr UE:

"Union policy on the environment shall aim at a **high level of protection** taking into account the diversity of situations in the various regions of the Union. It shall be based on **the precautionary principle** and on the principles that **preventive action** should be taken, that environmental damage should as a priority be **rectified at source** and that **the polluter should pay**".

12. Mae llawer o fathau o lygredd yn drawsffiniol eu heffaith: gall yr hyn sy'n digwydd mewn un aelod-wladwriaeth Ewropeaidd (e.e. allyriadau i'r awyr neu i gyrsiau dŵr mewn dalgyloedd trawsffiniol) gael goblygiadau difrifol i eraill. Mae llawer o'r mesurau yn neddfwriaeth amgylcheddol yr UE yn deillio o ymrwymadau sy'n codi o gytundebau amgylcheddol rhyngwladol y mae Aelod-wladwriaethau a'r UE yn bartïon ynddynt (gweler paragraff 76 isod a'r atodiad cyfreithiol). Gellid cyflawni'r cydweithrediad angenrheidiol i fynd i'r afael â materion trawsffiniol sy'n effeithio ar Aelod-wladwriaethau'r UE drwy gytundebau o'r fath, ond ni fyddai'r rhain o reidwydd yn cynnig y buddiannau economaidd a gynnigir gan farchnad fewnol yr UE.
13. Mae'r atodiad cyfreithiol i'r cais hwn am dystiolaeth yn nodi'n fanylach ddatblygiad cymhwysedd yr UE hyd yma mewn perthynas â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd. Mae'r UE wedi datblygu corff sylweddol o bolisïau a deddfwriaeth ynglŷn â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd dros y blynyddoedd. Mae hyn yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth gynyddol o bwysigrwydd ystyried yr amgylchedd mewn penderfyniadau llunio polisi a gweinyddol ehangach. Mae newid yn yr hinsawdd, na fu'n rhan o gwbl o ddeddfwriaeth amgylcheddol gynnar yr UE, wedi cael ei gydnabod ers hynny fel mater pwysig sy'n effeithio ar gyfran sylweddol o bolisïau amgylcheddol a pholisïau cysylltiedig.

ymchwiliad cyhoeddus. Amcangyfrifir y bydd yr estyniad hwn yn creu 1,800 o swyddi newydd yn y pen draw a diogelu bron 8,000 o swyddi presennol, yn ogystal â chynhyrchu dros £114 miliwn y flwyddyn i'r economi leol.

14. Erbyn hyn, cytunir ar lawer o bolisi'r DU ynglŷn â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd ar lefel yr UE, gyda nifer gymharol fach o feysydd o fewn cymhwysedd yr Aelod-wladwriaethau yn unig. Enghraifft allweddol o gymhwysedd cenedlaethol sy'n weddill yw cynllunio defnydd tir, er bod nifer gynyddol o ofynion yr UE yn effeithio ar gynllunio a datblygu¹. Mae'r rhain nid yn unig yn cynnwys asesiad o'r effaith amgylcheddol, asesiad amgylcheddol strategol a chyfranogiad cyhoeddus mewn prosesau gwneud penderfyniadau, ond hefyd ofynion eraill sy'n ymwneud â chynefinoedd, dŵr ac ati. Enghraifft arall o gymhwysedd cenedlaethol yw diogelu a rheoli priddoedd, sef maes sydd hefyd yn berthnasol i gynllunio a datblygu. Mae cynnig ar gyfer cyfarwyddeb fframwaith priddoedd eto i'w benderfynu ar lefel yr UE gan nad oes cytundeb hyd yma.
15. Er bod rhai cynigion deddfwriaethol yn yr arfaeth, mae'r pwyslais bellach ar weithredu a gorfodi'r mesurau presennol yn fwy effeithiol er mwyn sicrhau'r un amodau i bawb. Mae 7^{fed} Raglen Weithredu Amgylcheddol arfaethedig yr UE, sy'n cynnig fframwaith polisi rhwng nawr a 2020, adlewyrchu hyn. Ar yr un pryd, mae rhai yn galw ar yr UE i ddechrau dilyn ei egwyddorion 'rheoleiddio deallus' ei hun drwy leihau beichiau rheoleiddiol a gweinyddol diangen (yn arbennig ar fusnesau bach). Cynhelir nifer o adolygiadau cynhwysfawr neu 'brofion ffitrwydd' deddfwriaeth bresennol yr UE gan y Comisiwn, e.e. ynglŷn â dŵr, cemegion a gwastraff. Mae adolygiad o bolisiâu ansawdd aer hefyd yn cael ei gynnal gyda'r nod o wneud cynnydd pellach i leihau niwed i iechyd/ecosystemau oherwydd llygredd aer.

Cyd-destun strategol

16. Mae'r argyfwng economaidd cyfredol yn codi llawer o heriau ond gall hefyd gynnig cyfleoedd. Dengys adroddiad Cyflwr yr Amgylchedd 2010 Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop² y dirywiad parhaus mewn rhai asedau naturiol (a gostyngiad mewn niferoedd). Daw i'r casgliad bod heriau amgylcheddol sylweddol o hyd ac y byddant yn tanseilio ffyniant Ewropeaidd os nad eir i'r afael â hwy yn briodol. Gosodir hyn mewn cyd-destun ehangach gan yr asesiad o dueddiadau byd-eang a wneir ar y cyd, gan gynnwys poblogaeth gynyddol yn fyd-eang a phoblogaeth yn yr UE sy'n gostwng ac sy'n heneiddio mewn cymhariaeth, twf sydyn yn y dosbarth canol mewn marchnadoedd datblygol, mwy o fudo a newid technolegol cyflymach. Gwelir negeseuon cyffredinol tebyg yn Asesiad Cenedlaethol y DU o Ecosystemau³, a oedd yn dangos y dadleuon economaidd cryf dros ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol.
17. Cydnabu'r Papur Gwyn ar yr Amgylchedd Naturiol 'The Natural Choice'⁴ a gyhoeddwyd yn 2011, y caiff yr amgylchedd naturiol ei gymryd yn ganiataol a'i danbrizio weithiau, ond mai amgylchedd naturiol gweithredol ac iach yw sylfaen twf economaidd parhaus, cymunedau sy'n ffynnu a lles personol. Mae dealltwriaeth gynyddol ym mhob sector y bydd y broses o brizio a rheoli adnoddau naturiol yn gynyddol bwysig i dwf economaidd.

¹ www.publications.parliament.uk/pa/cm201213/cmhansrd/cm121206/wmstext/121206m0001.htm#12120639000227

² www.eea.europa.eu/soer/synthesis/synthesis

³ <http://uknea.unep-wcmc.org/Home/tabid/38/Default.aspx>

⁴ www.ukeof.org.uk/documents/Defra-white-paper.pdf

Amcangyfrifir bod tua £23bn o arbedion ar gael bob blwyddyn i fusnesau'r DU o ganlyniad i fesurau sy'n gwella'r ffordd y rheolir adnoddau megis deunyddiau, ynni a dŵr, ac sy'n lleihau gwastraff (The Further Benefits of Business Resource Efficiency, Mawrth 2011⁵). Ar yr un pryd byddai hyn yn arbed tua 29bn o dunelli allyriadau o CO₂ cyfatebol. Mae ymchwil i'r Comisiwn Ewropeaidd wedi amcangyfrif y gallai gwelliannau tebyg o ran effeithlonrwydd adnoddau (heb gynnwys ynni) gynnig buddiannau net o rhwng tua €245bn a €604bn i fusnesau'r UE yn dibynnu ar weithgarwch, sef rhwng 3% ac 8% o drosiant blynyddol ar gyfartaledd i bob busnes (The opportunities to business of improving resource efficiency', y Comisiwn Ewropeaidd, Chwefror 2013⁶).

18. Mae'r ffocws polisi cyffredinol ar dwf a datblygu seilwaith a gymeradwywyd gan arweinwyr yr UE yn golygu y bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd o bosibl i gysoni anghenion economaidd â diogelu'r amgylchedd, tra'n osgoi beichiau diangen ar fusnes, diwydiant a datblygu. Ar yr un pryd, gall sefydlu sylfeini cadarn ar gyfer twf economaidd cynaliadwy gefnogi datblygiad technolegau, cynhyrchion a gwasanaethau newydd er mwyn helpu i wireddu'r buddiannau a ddaw yn sgil rheoli adnoddau'n fwy effeithlon. Gall y datblygiadau newydd hyn hefyd helpu i wella sicrwydd cyflenwad adnoddau allweddol.

Materion llorweddol allweddol

19. Mae'r cais hwn am dystiolaeth yn seiliedig ar bwnc; nodir disgrifiad o'r meysydd polisi cyffredinol a gwmpesir gan yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd isod (gweler t. 14). Fodd bynnag, mae llawer o'r materion sy'n debygol o gael eu codi yn fwy trawsbynciol eu natur, gan effeithio ar fwy nag un maes polisi. Mae'r rhain yn cynnwys rhai o'r canlynol, ond efallai y bydd materion eraill y bydd ymatebwyr am eu codi.

Tensiynau rhwng hyrwyddo twf economaidd a diogelu a gwella'r amgylchedd

20. Nid oes angen dewis rhwng tyfu'r economi a gwella'r amgylchedd; yn wir, mewn sawl achos, gall y ddau beth fynd law yn llaw â'i gilydd ac maent yn digwydd. Mae twf cynaliadwy yn ymwneud â sicrhau amgylchedd iach a chymunedau cadarn, tra'n osgoi cyfyngiadau diangen ar fusnesau, yn ogystal â deall y cyfraniad a wna'r amgylchedd naturiol i'r economi a sicrhau'r cyfraniad gorau posibl. Gall buddsoddi mewn seilwaith esgor ar fuddiannau economaidd ac amgylcheddol fel ei gilydd. Er enghraifft, bydd buddsoddi mewn trafndiaeth gyhoeddus a gwahanol fathau o ynni adnewyddadwy yn esgor ar fuddiannau amgylcheddol yn y tymor hwy ar ffurf llai o allyriadau, ond yn y byrdymor gallai fod effeithiau amgylcheddol anffafriol y mae angen eu hystyried ar y cam cynllunio ac adeiladu. Gall buddsoddi mewn seilwaith hefyd fod yn fuddiol o ran y gallu i wrthsefyll yn ogystal â chynnig buddiannau economaidd - mae buddsoddi domestig mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd ac erydu arfordirol yn rhoi enillion o £8 am bob £1 a werir, a hynny dim ond o ran difrod llifogydd y llwyddwyd i'w osgoi, a gall y buddiannau cyffredinol gynyddu ddwy neu hyd yn oed dair gwaith os caiff buddiannau economaidd ehangach fel adfywio a mewnfuddsoddi eu cynnwys.

⁵ <http://randd.defra.gov.uk/Default.aspx?Menu=Menu&Module=More&Location=None&Completed=2&ProjectID=16943>

⁶ http://ec.europa.eu/environment/enveco/resource_efficiency/pdf/report_opportunities.pdf

21. Yn yr un modd, gallai camau i fynd i'r afael â nodau hinsawdd yr UE hefyd helpu i sicrhau twf cynaliadwy drwy hyrwyddo arloesedd mewn nifer o dechnolegau gan helpu i greu ac ysgogi'r farchnad fyd-eang ar gyfer nwyddau a gwasanaethau carbon isel ac amgylcheddol. Gall gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni, sef un o gonglfeini ymateb polisi'r UE er mwyn cyflawni amcanion newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â lleihau allyriadau hefyd leihau costau busnes, hyrwyddo cystadleurwydd, a chreu cyfleoedd cyflogaeth newydd. Disgwylir i Fargen Werdd y DU, er enghraifft, greu hyd at 250,000 o swyddi newydd.
22. Mae buddsoddi mewn seilwaith yn hanfodol i dwf, ac mae cynllunio defnydd tir yn dal i fod yn un o gymwyseddau'r Aelod-wladwriaethau. Fodd bynnag, mae datblygwyr yn ystyried bod gofynion cysylltiedig ynglŷn â diogelu rhywogaethau a chynefinoedd, sy'n gofyn am gynnal asesiadau o'r effaith amgylcheddol wrth geisio caniatâd cynllunio, yn faich gan eu bod yn golygu costau ychwanegol ac oedi weithiau. Mae adolygiad wedi cael ei gynnal yn ddiweddar o'r ffordd y caiff y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Adar Gwyllt eu gweithredu yn Lloegr. O ganlyniad i hynny, sefydlwyd Uned Seilwaith Mawr a'r Amgylchedd i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer achosion mawr ac ymdrin yn gyflym â phroblemau sy'n codi wrth weithredu'r Cyfarwyddebau. At hynny, cychwynnodd yr adolygiad ar broses radical o symleiddio canllawiau fel y gall busnesau ddeall eu rhwymedigaethau'n gyflym ac yn hawdd o dan y Cyfarwyddebau.
23. Maes arall lle mae gwaith yn cael ei wneud yw ymchwilio i ddulliau gweithredu mwy radical yn seiliedig ar y farchnad, e.e. ystyried system gwrthbwysu amrywiaeth lle caiff effeithiau ecolegol datblygiad eu gwrthbwysu drwy greu neu adfer cynefin mewn man arall.

Creu swyddi a diogelu amgylchedd Aber Afon Hafren

Yn 2006, gwnaeth Cwmni Porthladd Bryste gais i godi terfynfa gynwysyddion newydd fawr yn Aber Afon Hafren, a fyddai wedi cael effeithiau uniogyrchol ac anuniongyrchol ar ardal aeafu bwysig a warchodir ar gyfer tua 3,000 o adar dŵr. Ymdriniodd y cwmni yn gadarnhaol â'r rhwymedigaethau gwarchod natur a chydweithiodd yn agos â rheoleiddwyr a sefydliadau anllwyodraethol ym maes gwarchdo natur, i nodi effeithiau allweddol a chytuno ar fesurau lliniaru, cydbwysu a monitro. Nodwyd y rhain mewn cytundeb cyfreithiol manwl. O ganlyniad i'r cytundeb hwn, tynnodd cynghorwyr statudol a'r RSPB eu gwrthwynebiadau yn ôl. Drwy hyn gallai'r datblygiad gael ei gymeradwyo'n llwyddiannus heb fod angen ymchwiliad cyhoeddus. Amcangyfrifir y bydd yr estyniad hwn yn creu 1,800 o swyddi newydd yn y pen draw a diogelu bron 8,000 o swyddi presennol, yn ogystal â chynhyrchu dros £114 miliwn y flwyddyn i'r economi leol.

A oes angen i'r UE gymryd camau gweithredu o gwbl ac, os felly, sut y dylai weithredu?

24. Cwestiwn sylfaenol sy'n codi yw a oes angen camau deddfwriaethol mewn perthynas â mater penodol ac, os felly, beth yw'r lefel orau ar gyfer gwneud penderfyniadau. Ble mae'r UE yn ychwanegu gwerth orau - a ddylai pob un o fesurau'r UE gael rhyw fath o effaith drawsffiniol, a sut y mae'n fuddiol i'r DU os cymerir camau ar lefel yr UE yn hytrach nag ar lefel genedlaethol neu ddatganoledig? A all camau gweithredu ar lefel yr UE helpu neu rwystro codi safonau gofynnol ledled yr UE? Os ystyrir ei bod yn briodol cymryd camau ar lefel yr UE, a yw'r camau hynny gan yr UE i ymdrin â'r mater yn gymesur â'r broblem a'r risg? Mae deddfwriaeth yr UE sy'n ymwneud ag Organeddau a

Addaswyd yn Enetig yn mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg⁷, ond nid yw'n gweithredu yn y ffordd hon yn ymarferol o ganlyniad i bwysau gan gymdeithas/gwleidyddol i fabwysiadu dull gweithredu mwy rhagofalus.

Pa fath o ddeddfwriaeth – beth yw'r ffordd orau o sicrhau'r hyn a ddymunir?

25. Yn hanesyddol, mae safonau amgylcheddol cyffredin wedi cael eu pennu ar lefel ryngwladol neu lefel yr UE oherwydd bod yr hyn sy'n digwydd mewn un wlad (e.e. allyriadau i'r awyr, neu gyrsgiau dŵr trawsffiniol neu'r amgylchedd morol) yn cael effeithiau mewn gwledydd eraill. Mae creu a chynnal marchnad fewnol yr UE hefyd wedi cael effaith ar reoleiddio amgylcheddol, gyda'r nod o sicrhau cystadleuaeth agored a theg a chreu 'yr un amodau i bawb' o ran busnesau ledled yr UE. Mae rhai Aelod-wladwriaethau yn dadlau bod marchnad fewnol sy'n gweithredu'n briodol yn gofyn am safonau cyffredin, nid dim ond cynhyrchion cyffredin.
- Mae rhai darnau o ddeddfwriaeth amgylcheddol yr UE yn mynd ati i gysoni safonau yn hollgynhwysfawr, **gan bennu** lefelau penodol o ddiogelwch y mae'n rhaid eu cyrraedd ym mhob un o Aelod-wladwriaethau a'i gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau ddileu deddfwriaeth genedlaethol anghyson. Dull gweithredu amgen yw **cysoni lleiaf**, lle mae deddfwriaeth yr UE yn pennu safonau gofynnol y mae'n rhaid i Aelod-wladwriaethau eu cyflawni mewn perthynas â mater penodol, gan roi rhyddid i Aelod-wladwriaethau fabwysiadu mesurau diogelu llymach yn eu tiriogaethau eu hunain ar yr amod bod y rhain yn cydweddu â gofynion eraill y Cytuniadau.
26. Fodd bynnag, gall dadleuon godi ynghylch a yw safonau wedi'u pennu ar y lefel gywir: mae rhai yn dadlau o blaid safonau uwch i ddiogelu neu wella'r amgylchedd a/neu iechyd y cyhoedd waeth beth fo'r gost; mae eraill yn dadlau y dylai'r broses o bennu safonau ystyried eu heffaith ar gystadleurwydd yr UE. Mater arall sy'n codi yw'r manylder: a ddylai fod cysoni hollgynhwysfawr, neu a ddylai fod safonau gofynnol i'w pennu ar lefelau'r UE sy'n rhoi hyblygrwydd i Aelod-wladwriaethau fynd ymhellach os dymunant? Mewn geiriau eraill, a yw'n well rhoi'r rhyddid i Aelod-wladwriaethau benderfynu sut y dylid sicrhau canlyniadau ynteu deddfu mewn modd rhagnodol er mwyn sicrhau'r un amodau i bawb?
27. Mae rhai yn dadlau y dylai targedau gael eu pennu fel dyheadau gwleidyddol, mae eraill yn dadlau y dylent fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Lle na fydd safonau a fabwysiadwyd gan yr UE yn ddigonol i gyflawni targedau presennol yr UE (e.e. methiant y safonau technegol sy'n rheoleiddio allyriadau cerbydau i gyflawni gwerthoedd terfyn ansawdd aer) gall hyn hefyd fod yn ddadleuol. Ond o ystyried bod hon yn broblem gyffredinol ymhlith Aelod-wladwriaethau'r UE gall hefyd fod yn arwydd o anfodlonrwydd i wneud yr addasiadau cymdeithasol a/neu'r buddsoddiadau angenrheidiol.
28. Gall gymryd amser i gyd-drafod deddfwriaeth yr UE o ystyried bod angen cytundeb mwyafrif cymwysedig o'r Aelod-wladwriaethau. Unwaith bod y ddeddfwriaeth wedi'i mabwysiadu gall fod yn anodd a llafurus ei diwygio neu ei diddymu wedyn. Gall hyn, yn ôl yr honiad, glymu'r UE ac Aelod-wladwriaethau wrth bolisi penodol neu ateb technolegol sy'n ei gwneud hi'n anodd i effaith polisiâu arloesol, tystiolaeth wyddonol newydd neu ddatblygiadau mewn technoleg gael eu hadlewyrchu. Yn yr un modd,

⁷ http://ec.europa.eu/food/food/biotechnology/evaluation/index_en.htm

ystyrir bod targedau credadwy tymor hwy yr UE yn bwysig o ran anfon negeseuon hirdymor i'r diwydiant arloesi ac addasu dros amser, gan leihau'r costau sy'n gysylltiedig â gwneud newidiadau pwysig.

Aelod-wladwriaethau yn dehongli/gweithredu deddfwriaeth yr UE yn wahanol

29. Yn gysylltiedig â mater safonau a thargedau cyffredin y mae'r graddau y dylid caniatáu i Aelod-wladwriaethau ddehongli neu gymhwyso deddfwriaeth yr UE yn wahanol i'w gilydd ac a yw hynny bob amser o bwys. Gellir dadlau bod gweithredu cyson o bwys lle cyfyd ystyriaethau o ran y farchnad fewnol neu ystyriaethau trawsffiniol (ystyrir 'yr un amodau i bawb' yn bwysig gan lawer o fusnesau), ond mae rhai yn dadalu bod y dull 'un ateb i bawb' yn amhriodol, am resymau daearyddol neu resymau eraill. Gall y broses o sicrhau bod pob Aelod-wladwriaeth yn gweithredu gofynion yr UE mewn modd cyson gael ei hystyried yn rhy fiwrocraidd ac yn dibynnu gormod ar broses, gan osod beichiau gweinyddol neu reoleiddiol costus ar fusnesau, yn enwedig busnesau bach.
30. Un enghraifft o symud tuag at gysoni rheolau er mwyn cydnabod ystyriaethau cryf ynglŷn â'r farchnad fewnol yw System Masnachu Allyriadau yr UE (EU ETS). Mae'r DU wedi ymgyrchu dros gysondeb ledled yr UE er mwyn sicrhau na fydd diwydiant yn y DU yn cael ei roi o dan anfantais gystadleuol yn yr EU ETS, ac wedi rheoli risgiau ynglŷn â lefel y baich gweinyddol drwy ddylanwadu ar y ffordd y caiff rheolau EU ETS eu llunio er mwyn sicrhau bod rheoleiddio yn digwydd ar sail risg gyda llai o feichiau ar gyfer gosodiadau allyrru llai o faint.

Lleihau beichiau rheoleiddiol a gweinyddol yn ogystal â chostau

31. Cyfyd cwestiynau ynghylch a yw cydbwysedd beichiau a buddiannau'r UE ar gyfer busnesau yn briodol ac a ddylid lleihau'r beichiau rheoleiddiol a gweinyddol ar fusnesau (yn enwedig busnesau bach neu ganolig (BBaChau)) Neu, mewn rhai achosion, a ddylid eithrio 'microfusnesau' yn gyfan gwbl. Mae Llywodraeth y DU wrthi'n cynnal Adolygiad o Reoleiddio Amgylcheddol Doethach, y mae'r cam cyntaf ohono wedi canolbwyntio ar ddatblygu cynigion i wella canllawiau amgylcheddol a gwneud prosesau cofnodi data yn llai beichus i fusnesau. Mae rhaglen uchelgeisiol bellach ar waith dros y cyfnod hyd at fis Mawrth 2014 er mwyn gwneud y canlynol: rhesymoli a lleihau'n sylweddol faint o ganllawiau amgylcheddol a geir; adolygu'n feirniadol pa wybodaeth amgylcheddol sydd ei hangen ar hyn o bryd gan fusnesau a chynllunio sut y dylid gweithredu'r newidiadau; a threialu dull symlach o gyflwyno'r wybodaeth honno i fusnesau a datblygu cynllun ynglŷn â sut y dylid ymestyn y dull gweithredu. Y nod yw lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â rheoliadau amgylcheddol i fusnesau a datgloi'r potensial ar gyfer twf, tra'n cynnal neu'n gwella effeithiolrwydd rheoliadau amgylcheddol.
32. Ond a ddylem fod yn pwysu am ddulliau gweithredu mwy arloesol? Er enghraifft, mae angen trwyddedau allyriadau ar gyfer pob safle unigol ar hyn o bryd. A allem gyflwyno trwyddedau i fusnesau cyfan, yn hytrach na mynnu bod gan bob safle drwydded? A oes dadl dros fwy o weithredu gwirfoddol, a arweinir gan y farchnad, gan leihau neu ddileu'r angen am ddeddfwriaeth o bosibl? Mae meysydd lle y gallai hyn fod yn fuddiol yn cynnwys effeithlonrwydd adnoddau, sicrwydd deunyddiau ac eco-arloesi, lle ceir cyfleoedd sylweddol i fusnesau wneud arbedion a chynyddu allforion.


33. Mae'r adran ganlynol yn cynnwys disgrifiad o nifer o feysydd polisi amgylcheddol unigol lle mae'r UE wedi arfer ei gymwyseddau. Ceir rhagor o wybodaeth am y ddeddfwriaeth berthnasol yn yr atodiad cyfreithiol.

Polisi ynglŷn â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd

Newid yn yr hinsawdd

34. Mae lefelau carbon deuocsid (CO₂) yn yr atmosffer wedi cynyddu tua 40% ers dechrau'r chwyldro diwydiannol. Mae arwyneb y Ddaear wedi cynhesu tua 0.8°C ers tua 1900, sydd wedi digwydd yn bennaf yn ystod y 50 mlynedd diwethaf. Er mwyn helpu i osgoi risgiau effeithiau gwaethaf newid yn yr hinsawdd, mae'r gymuned ryngwladol wedi cytuno bod angen cyfyngu ar y cynnydd yn nymheredd y byd i 2°C uwchlaw lefelau cyn-ddiwydiannol. Er mwyn cael cyfle 50% o gyflawni hyn, cydnabyddir yn gyffredinol bod angen i allyriadau nwyon tŷ gwydr gyrraedd eu hanterth cyn 2020 ac yna ostwng yn sydyn wedi hynny.
35. Er i bolisi a deddfwriaeth yr UE ynglŷn â'r hinsawdd gael eu datblygu'n gymharol ddiweddar, maent bellach wedi cael effaith sylweddol ym mhob rhan o'r economi ac maent yn mynd i'r afael â'r mater amgylcheddol pwysicaf, fel y derbynnir yn gyffredinol, sy'n wynebu'r UE erbyn hyn. Ym mis Mehefin 1990 gwnaeth Cyngor Ewrop annog pob gwlad i gyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni ac arbed ynni helaeth a mabwysiadu targedau a strategaethau posibl ar gyfer cyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr cyn gynted ag y bo modd. Gofynnodd y Cyngor hefyd am gynigion penodol gan y Comisiwn, yn arbennig, am fesurau mewn perthynas ag allyriadau carbon deuocsid, gyda'r nod o lunio barn gadarn i'r Gymuned wrth baratoi ar gyfer ail Gynhadledd Hinsawdd y Byd. Ym mis Hydref 1990 ceisiodd Cyngor yr Amgylchedd a'r Cyngor Ynni gamau gweithredu i sefydlu allyriadau CO₂ yn y Gymuned ar lefelau 1990 erbyn 2000 (yng nghyd-destun cyddrafodaethau ar gyfer cytundeb rhyngwladol i'r perwyl hwnnw, a arweiniod at fabwysiadu Confensiwm Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd yn Rio yn 1992).
36. Y ddeddfwriaeth gyntaf gan yr UE a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â newid yn yr hinsawdd oedd Penderfyniad y Cyngor 98/389/EEC i gyflwyno dull o fonitro allyriadau CO₂ ac allyriadau nwyon tŷ gwydr eraill a wnaed o dan yr hyn sydd bellach yn Erthygl 192 o TFEU. Fodd bynnag, congllfaen deddfwriaeth gyfredol yr UE ynglŷn â newid yn yr hinsawdd yw Cyfarwyddeb 2003/87/EC, a sefydlodd System Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (EU ETS). Fe'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2004/101/EC a gynhwysai allyriadau hedfan rhyngwladol o fewn cwmpas yr EU ETS, a Chyfarwyddeb 2009/101/EC a wnaeth foderneiddio'r cynllun a llunio darpariaeth fanwl ar gyfer y cyfnod hyd at 2020 a thu hwnt. Gwnaed yr holl Gyfarwyddebau hyn o dan yr hyn sydd bellach yn Erthygl 192 o TFEU.

Gyda'i gilydd mae Aelod-wladwriaethau'r UE yn gyfrifol am tua 10% o allyriadau (yn 2010). Mae hyn yn is na'r UD (14%) a Tsieina (23%) ond mae'n dal yn gyfran sylweddol. O dan Brotocol Kyoto, ymrwymodd y 15 gwlad a oedd yn aelodau o'r UE cyn 2004 ('EU-15') i leihau cyfanswm eu hallyriadau i 8% yn is na lefelau 1990 erbyn 2008-2012 drwy gytudneb rhannu'r baich, sy'n nodi isafswm cyfraniad pob Aelod-wladwriaeth i gyflawni'r ymrwymiad cyffredinol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac maent ar y trywydd iawn i gyflawni'r targed hwn. Mae gan Aelod-wladwriaethau a ymunodd â'r UE ers 2004 eu targedau lleihau eu hunain o dan Kyoto ar gyfer y cyfnod 2008-2012 ac maent hwythau hefyd ar y trywydd iawn i'w cyflawni.



Graff un: Tueddiadau yn allyriadau nwyon tŷ gwydr yr UE o gymharu â 1990/blwyddyn sylfaen

Ffynhonnell: Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop

Mynegai 1900=100, UE-27 AEE-32

Blwyddyn sylfaen y mynegai =100, UE-15

UE-27 cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr

UE-15 cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr

AEE 32 cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr

UE-27 cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr (Amcangyfrif Procsi 2011)

UE-15 cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr (Amcangyfrif Procsi 2011)

KP BY = PA BS

37. Mae'r EU ETS yn cwmpasu diwydiant ynni-ddwys, gan gynnwys cynhyrchu trydan, sy'n gyfrifol am tua 45% o'r allyriadau nwyon tŷ gwydr yn yr UE. O ran allyriadau nas cwmpaswyd gan yr EU ETS, mae Penderfyniad Rhif 406/2009/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd yn gosod isafswm cyfraniad Aelod-wladwriaethau i gyflawni ymrwymiad y Gymuned i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (sef gostyngiad o 20% ar hyn o bryd) ar gyfer y cyfnod rhwng 2013 a 2020 ym meysydd ynni (gan gynnwys llosgi tanwydd ac allyriadau sy'n ffoi), prosesau diwydiannol nas cwmpaswyd gan yr EU ETS, y defnydd o doddyddion a chynhyrchion, amaethyddiaeth a gwastraff.

System Masnachu Allyriadau yr UE

EU ETS, a lansiwyd yn 2005, yw'r system gyntaf a'r system fwyaf yn y byd ar gyfer capio masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr a dyma gonglfaen polisi hinsawdd yr UE. Mae'r stem yn cwmpasu diwydiannau ynni-ddwys, gan gynnwys generaduron trydan, y mae'n aid iddynt ildio un lwfans ar gyfer pob tunnell o allyriadau carbon deuocsid cyfatebol a yrir ganddynt. Rhoddir nifer gyfyngedig o lwfansau, gan gapio cyfanswn yr allyriadau ar lefel benodol sy'n lleihau dros amser wrth i allyriadau ostwng. Mae'r tertyn yn rhoi gwerth i fansau, gan gymell busnesau i leihau eu hallyriadau. Mae system gyson ledled yr UE, lle i ff lwfansau eu masnachu'n rhydd, yn caniatáu i'r gostyngiadau hyn ddigwydd lle y maent yaf costeffeithiol ledled yr UE, gan leihau'r gost gyffredinol. Mae cytundeb cyffredinol nhlith cwmnïau a reoleiddir gan yr EU ETS fod gweithredu ar lefel yr UE yn briodol am ei d yd yn osgoi ystumio cystadleuol drwy gynnig uchelgais cyffredin o fewn y farchnad fewnol.

38. Yn 2012 cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd fap ffordd ar gyfer adeiladu economi carbon isel Ewropeaidd gan nodi'r gostyngiadau y byddai angen eu cyflawni erbyn 2030 a 2050. Nodir y rhain yn y tabl isod.

Gostyngiadau mewn nwyon tŷ gwydr o gymharu â 1990	2005	2030	2050
Cyfanswm	-7%	-40 i -44%	-79 i -82%
Sectorau			
Ynni (CO ₂)	-7%	-54 i -68%	-93 i -99%
Diwydiant (CO ₂)	-20%	-34 i -40%	-83 i -87%
Trafnidiaeth (gan gynnwys CO ₂ hedfan, heb gynnwys trafndiaeth forol)	+30%	+20 i -9%	-54 i -67%
Preswyl a gwasanaethau (CO ₂)	-12%	-37 i -53%	-88 i -91%
Amaethyddiaeth (Allyriadau nad ydynt yn rhai CO ₂)	-20%	-36 i -37%	-42 i -49%
Allyriadau eraill nad ydynt yn rhai CO ₂	-30%	-72 i -73%	-70 i -78%

Mae canrannau yn seiliedig ar nifer fawr o senarios dadgarboneiddio gwahanol.

Ffynhonnell: Y Comisiwn Ewropeaidd

39. Ers hynny, ym mis Mawrth 2013 cyhoeddodd y Comisiwn Bapur Gwyrdd ar fframwaith hinsawdd ac ynni ar gyfer 2030 gan geisio barn ynglŷn â pha nodau y dylid eu pennu ar gyfer 2030, sut y gellir sicrhau cydlyniant rhwng gwahanol offerynnau polisi a'r ffordd orau y gall polisiâu gyfrannu i gystadleurwydd yr UE a sicrwydd cyflenwadau ynni, tra'n ystyried gallu gwahanol Aelod-wladwriaethau i weithredu.
40. Mae'r UE a'i Aelod-wladwriaethau hefyd yn chwarae rôl arweiniol i weithredu ar hinsawdd yn rhyngwladol, yn enwedig yng nghyd-destun cyd-drafodaethau o dan Gofensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd a'r Protocol Kyoto cysylltiedig. Trafodir hyn yn yr adran 'dimensiwn allanol' (gweler tudalen 27), sydd hefyd yn disgrifio rôl y DU mewn cyllid hinsawdd rhyngwladol.
41. Mae'r cwestiynau allweddol ynglŷn â'r berthynas rhwng y DU a'r UE a'n hamcanion o ran newid yn yr hinsawdd yn troi o amgylch gallu'r DU i gyflawni ein targedau ein hunain ac annog eraill i wneud yr un fath. A fyddai polisi newid yn yr hinsawdd y DU ei hun yn

fwy neu'n llai anodd ei ddilyn heb gymhwysedd yr UE yn y maes hwn a ph'un fyddai'r ffodd orau y gallwn ddylanwadu ar eraill yn y ddadl fyd-eang.

Dŵr a morol


42. **Dŵr:** Mae dŵr glân yn hanfodol i iechyd pobl, felly roedd mesurau i leihau llygredd dŵr yn rhan o'r cynigion amgylcheddol cynharaf. Mae deddfwriaeth helaeth ynglŷn â dŵr wedi cael ei datblygu ar lefel yr UE o ran ansawdd dŵr croyw, dŵr yfed a dŵr ymdrochi; rheoli llygredd, trin dŵr gwastraff trefol a rheoli morol, yn ogystal ag asesu a rheoli perygl llifogydd (gweler yr atodiad cyfreithiol yn https://consult.defra.gov.uk/eu/balance_of_competences).
43. Mae lefel y llygryddion sy'n cael eu gollwng i ddŵr croyw a dyfroedd arfordirol wedi gostwng dros y blynyddoedd, gan arwain at welliannau yn ansawdd dŵr croyw a dŵr ymdrochi. Fodd bynnag, erys llygredd oherwydd maethynnau, bioladdwyr a chemegion diwydiannol a chemegion yn y cartref yn broblem o hyd ac mae crynodiad nitradau mewn afonydd a dŵr daear yn her barhaus. Cafodd deddfwriaeth dŵr yr UE ei chydgrynhoi i ryw raddau pan fabwysiadwyd Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2000/60/EC yn 2000, er i rai gofynion newydd gael eu hychwanegu hefyd. Mae nifer o Gyfarwyddebau eraill wedi cael neu byddant yn cael eu diddymu gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr am ei bod wedi'u disodli bellach.
44. Cynhaliodd y Comisiwn adolygiad (neu 'wiriad ffitrwydd') o bolisi dŵr croyw'r UE yn ddiweddar gan gyhoeddi 'Blueprint to Safeguard EU Water Resources' ym mis Tachwedd 2012⁸. Cynhwysai nifer o gynigion i wella'r ffordd y caiff y fframwaith deddfwriaethol presennol ei weithredu ond nid i'w symleiddio ymhellach.
45. **Morol:** Effeithir ar yr amgylchedd morol gan nifer o bwysau gwahanol ac mae angen cydweithredu â gwledydd cyfagos a meysydd polisi eraill i'w reoli. Er enghraifft, daw llawer o lygryddion yn y môr o'r tir a dŵr croyw, y mae pysgodfeydd yn cael dylanwad mawr, mae datblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr yn weithgarwch newydd a chynyddol, a gall effaith newid yn yr hinsawdd ychwanegu risgiau megis y rhai sy'n deillio o rywogaethau anfrodorol goresgynnol. Mae confensiynau moroedd rhanbarthol presennol (ar gyfer y DU, Confensiwn OSPAR yng ngogledd-ddwyrain Môr Iwerydd) yn chwarae rôl i hyrwyddo dulliau gweithredu cydlynol. Fodd bynnag, datblygwyd Gyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol 2008/56/EC hefyd am fod deddfwriaeth Ewropeaidd flaenorol o natur sectorol ac yn dameidiog.
46. At hynny, mae cynnig gan y Comisiwn yn anelu at sefydlu fframwaith cyson ar gyfer cynllunio gofodol morol a rheoli arfordirol integredig er mwyn hyrwyddo twf a defnydd cynaliadwy o adnoddau arfordirol a morol. O ran bioamrywiaeth forol, mae gofynion cadwraeth yn deillio o'r Gyfarwyddeb Adar Gwyllt a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (fel y nodir isod). Ceir cysylltiadau cryf hefyd â diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, gan fod mesurau i ddiogelu'r amgylchedd neu rywogaethau bregus (e.e. siarcod neu deulu'r morfil) yn gofyn am reolaethau ar bysgota.

Ansawdd aer

47. Bu cryn ostyngiad mewn llygryddion aer dros yr 20 mlynedd diwethaf ledled yr UE. Fodd bynnag, mae effeithiau sylweddol ar iechyd pobl a bioamrywiaeth yn parhau. Ymhlith y darnau pwysig o ddeddfwriaeth yr UE yn y maes hwn mae'r Gyfarwyddeb

⁸ <http://ec.europa.eu/environment/water/blueprint/>

Terfynau Allyriadau Cenedlaethol (2001/81/EC) gyda'r nod o leihau llygrydd aer trawsffiniol, a Chyfarwyddbau ansawdd aer (2008/50/EC a 2004/107/EC) sy'n pennu safonau sy'n seiliedig ar iechyd yn bennaf ar gyfer crynodiadau o lygryddion yn yr awyr agored. Mae deddfwriaeth arall gan yr UE wedi rheoli allyriadau o ffynonellau allweddol megis diwydiant, cynhyrchu ynni a thrafnidiaeth er mwyn helpu i gyflawni safonau'r UE.



Graff dau: Tueddiadau o ran llygryddion aer a allyrrir o gymharu â 1970/blwyddyn sylfaen
Ffynhonnell: Defra 2013

Mynegai (1970=100)	Cyfansoddion organig anweddol difethan	LLINELL Y MYNEGAI
Amonia (1980=100)		Amonia
		Ocsidau Nitrogen
		Sylffwr Deuocsid

48. Nid problem leol neu genedlaethol yw llygred aer. Effeithir ar ein hinsawdd aer nid yn unig gan allyriadau'r DU ond hefyd gan allyriadau o ogledd Ewrop (y mae amodau tywydd yn dylanwadu'n fawr ar rai ohonynt) a thu hwnt, yn enwedig yn achos llygryddion megis osôn troposfferig. Felly mae'n rhaid ymdrin â hyn fel mater trawsffiniol a rhyngwladol ehangach. Mae pennu targedau i ddiogelu iechyd ac ecosystemau a rheolaethau ar allyriadau ar gyfer sectorau llygru allweddol ar lefel Ewropeaidd felly yn gwneud synnwyr, yn ogystal â gweithio ar gytundebau rhyngwladol ehangach, er enghraifft, Protocol Montreal ar Sylweddau sy'n teneuo'r Haen Osôn drwy Gomisiwn Economaidd y Cenhedloedd Unedig i Ewrop (UN ECE). Ond nid yw'r terfynau amser na'r uchelgais ar gyfer terfynau'r UE yn seiliedig ar iechyd wedi bod yn gyson iawn bob amser a'r rhai ar gyfer deddfwriaeth rheoli ffynonellau allweddol yr UE. At hynny, ni wnaed unrhyw ddarpariaeth i gyfrif am y posibilrwydd o dangyflawni sylweddol o ran deddfwriaeth rheoli ffynonellau allweddol yr UE. O ganlyniad ceir diffyg cydymffurfio helaeth ledled yr Aelod-wladwriaethau bellach o ran safonau ansawdd aer a therfynau allyriadau. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wrthi'n cynnal adolygiad o bolisiâu ansawdd aer yr UE a disgwylir iddo ddod i ben yn ystod hydref 2013.

Llygredd diwydiannol

49. Mae Cyfarwydddeb Allyriadau Diwydiannol 2010/75/EU yn gymwys mewn sawl ffordd i tua 10,000 o osodiadau yng Nghymru a Lloegr, yn amrywio o orsafoedd pŵer i ffermydd moch dwys ac o losgyddion gwastraff i sychlanhawyr. Mae angen i bob gosodiad a gwmpesir ganddo gael trwydded gan yr awdurdod cymwys cenedlaethol sy'n cynnwys amodau i reoli allyriadau llygryddion tebygol. O ran y gosodiadau mwy o faint, mae'n rhaid i'r amodau hyn fod yn seiliedig ar gymhwyso'r technegau gorau sydd ar gael (BAT). Mae'n rhaid cyflwyno adroddiad ar allyriadau llygryddion o'r gosodiadau mwy o faint bob blwyddyn, o dan Reoliad (EC) 166/2006 a sefydlodd Gofrestr Rhyddhau a Throsglwyddo Llygryddion Ewropeaidd (PRTR)⁹. Mae hyn yn fodd i dueddiadau o ran allyriadau llygryddion i'r awyr, dŵr a thir gael eu hasesu. Rhywbeth arall sy'n berthnasol o dan y pennawd hwn yw deddfwriaeth yr UE ar reoli peryglon damweiniau mawr sy'n deillio o storio cemegion peryglus ar raddfa ddiwydiannol (gweler isod).

Cemegion

50. **REACH:** Mae'r ffordd y mae'r UE yn rheoleiddio'r broses o gynhyrchu a defnyddio sylweddau cemegol wedi'i chynnwys yn bennaf yn y Rheoliad ar Gofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegion (REACH) 1907/2006. Mae REACH yn cyfuno dulliau rheoleiddio traddodiadol â dulliau eraill, yn benodol cyfrifoldeb ychwanegol ar y cynhyrchydd. Nod y Rheoliad yw ceisio diogelu iechyd pobl a'r amgylchedd yn ogystal â'i gwneud yn bosibl i sylweddau cemegol gael eu symud yn ddirwysr a gwella cystadleurwydd ac arloesedd. Mae'n rhaid i'r holl sylweddau cemegol sy'n cael eu gweithgynhyrchu neu eu mewnfario mewn cyfeintiau o dunnell neu fwy gael eu cofrestru gan y gweithgynhyrchydd/mewnfariwr gydag Asiantaethau Cemegion Ewrop. Mae rheoliad REACH hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli risg **Nanoddeunyddiau**¹⁰. Caiff diffiniad y Comisiwn¹¹ ei gymhwyso yn neddfwriaeth yr UE lle y bo'n briodol a'i adolygu a'i addasu yn y dyfodol yn ôl yr angen.
51. Mae'r broses ar gyfer rheoli'r cemegion mwyaf niweidiol, a elwir yn awdurdodi, yn golygu nodi sylweddau sy'n achos pryder mawr iawn gyda'r nod o ddileu'r defnydd a wneir ohonynt yn raddol lle mae cemegion amgen diogelach ar gael neu lle mae'r risgiau i iechyd pobl neu'r amgylchedd yn fwy na buddiannau sy'n gysylltiedig â pharhau i'w defnyddio. Fel arall, lle y nodir risg annerbyniol gellir cyfyngu ar ddefnydd penodol o gemegyn. Gall y prosesau awdurdodi a chyfyngu gael eu cychwyn gan y Comisiwn Ewropeaidd neu gan Aelod-wladwriaeth. Daeth adolygiad eang ei gwmpas o REACH gan y Comisiwn Ewropeaidd¹² yn ddiweddar i'r casgliad na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r testun cyfreithiol ar hyn o bryd am resymau sefydlogrwydd a rhagweladwyedd. Fodd bynnag nododd ymgynghoriad¹³ diweddar a gynhaliwyd hefyd gan y Comisiwn Ewropeaidd mai REACH (ar sail ymatebion busnesau) oedd y rheoliadau mwyaf beichus gan yr UE i fusnesau bach a chanolig.
52. Mae'r DU a'r UE yn Bartïon yng Nghonfensiwn Rotterdam ynglŷn â'r weithdrefn caniatâd ymlaen llaw ar gyfer **mewnfario ac allfario cemegion peryglus**, a gymhwysir

⁹ Gellir gweld E-PRTR drwy UK PRTR yn: <http://prtr.defra.gov.uk/>

¹⁰ [http://ec.europa.eu/nanotechnology/pdf/second_regulatory_review_on_nanomaterials_-_com\(2012\)_572.pdf](http://ec.europa.eu/nanotechnology/pdf/second_regulatory_review_on_nanomaterials_-_com(2012)_572.pdf)

¹¹ <http://ec.europa.eu/environment/chemicals/nanotech/>

¹² http://ec.europa.eu/environment/chemicals/reach/review_2012_en.htm

¹³ http://ec.europa.eu/enterprise/policies/sme/files/top10report-final_en.pdf

yn yr UE drwy Reoliad yr UE 649/2012, sydd hefyd yn gweithredu agweddau penodol ar Gonfensiwn Stockholm ynglŷn â llygryddion organig parhaus.

53. **Rheoli peryglon damweiniau mawr:** Mae rheoliad yr UE ynglŷn â pheryglon damweiniau mawr ar y tir sy'n ymwneud â sylweddau peryglus wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd drwy'r hyn a elwid fel arfer yn y Cyfarwyddbau 'Seveso' (a enwyd ar ôl Seveso yn yr Eidal lle y bu damwain ddiwydiannol mewn safle gweithgynhyrchu cemegion yn 1976). Mae'r system yn gweithredu ar sail dull dwy haen o storio sylweddau peryglus: po fwyaf o sylweddau peryglus a storir ar y safle, y mwyaf llym fydd y rheolaethau ar weithredwr y safle. Mae hefyd yn cynnwys gofynion cynllunio defnydd tir. Addaswyd y system ddiwethaf yn 2012, drwy Gyfarwyddeb 'Seveso III' (2012/18/EU), yn bennaf er mwyn adlewyrchu newidiadau i feini prawf dosbarthu cemegion yr UE.
54. **Plaladdwyr:** Mae cynhyrchion diogelu safleoedd wedi cael eu rheoleiddio ers nifer o flynyddoedd er mwyn sicrhau nad yw cemegion sydd wedi'u cynllunio i reoli pethau byw sy'n cael eu rhyddhau'n aml i'r amgylchedd yn achosi niwed i bobl na difrod annerbyniol i'r amgylchedd. Mae Rheoliad 1107/2009, a nifer o ddogfennau cyfarwyddyd manwl, yn nodi proses dwy haen o asesu risg wyddonol a gwneud penderfyniadau. Caiff sylweddau actif eu hasesu a'u cymeradwyo ar lefel yr UE; caiff cynhyrchion sy'n cynnwys y sylweddau hyn eu hasesu a'u hawdurdodi gan Aelod-wladwriaethau.
55. **Bioladdwyr:** mae bioladdwyr yn cynnwys amrywiaeth eang o gynhyrchion gyda'r nod o reoli organeddau niweidiol gan gynnwys cadwolynion pren, pryfladdwyr, diheintyddion a chadwolynion mewn cynwysyddion. Mae Cyfarwyddeb Cynhyrchion Bioladdol 98/8/EC yn anelu at sicrhau lefel uchel o ddiogelwch i iechyd pobl ac anifeiliaid a'r amgylchedd o ystyried y risgiau y gall bioladdwyr eu hachosi. Ceir proses asesu risg ac awdurdodi dwy haen sy'n debyg i'r hyn a geir ar gyfer cynhyrchion diogelu safleoedd. Caiff y Gyfarwyddeb ei disodli ar 1 Medi 2013 gan Reoliad 528/2012 y bwriedir iddo symleiddio'r system bresennol a mynd i'r afael ag oedi a chostau uchel sy'n gysylltiedig â'r adolygiad parhaus o sylweddau actif.

Organeddau a addaswyd yn enetig

56. Mae rheolaethau'r UE ynglŷn â rhyddhau organeddau a addaswyd yn enetig yn anelu at ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd a sicrhau y gellir symud cynhyrchion GM diogel yn ddirwystr yn y farchnad fewnol. Mae dau brif ddarn o ddeddfwriaeth berthnasol gan yr UE. Mae Cyfarwyddeb 2001/18/EC ('y Gyfarwyddeb) yn ymdrin â rhyddhau organeddau a addaswyd yn enetig yn fwriadol i'r amgylchedd at ddibenion arbrofol (megis treialon yn y maes) neu farchnata masnachol. Yn y cyd-destun hwn ystyr "rhyddhau" yw heb unrhyw fesurau penodol i atal cysylltiad â phobl neu'r amgylchedd. Mae Rheoliad 1829/2003 ('y Rheoliad') yn ymdrin yn benodol â chymwysiadau at fwyd GM ar y farchnad a chynhyrchion porthiant, gan gynnwys rhyddhau cnydau GM i'w tyfu'n fasnachol. Gwneir penderfyniadau ynglŷn â threialon rhyddhau organeddau a addaswyd yn enetig ar lefel yr Aelod-wladwriaeth o dan y Gyfarwyddeb. Gwneir penderfyniadau ynglŷn â rhyddhau organeddau a addaswyd yn enetig yn fasnachol ar lefel yr UE, o dan y Rheoliad, os bwriedir defnyddio'r organedd a addaswyd yn enetig mewn bwyd neu borthiant neu o dan y Gyfarwyddeb os mai cynnyrch nad yw'n fwyd/porthiant ydyw (e.e blodau wedi'u torri). Beth bynnag fo'r cyd-destun, yr egwyddor gyffredinol yw y bydd awdurdodiad i ryddhau yn destun asesiad risg gwyddonol ar sail unigol, ac y gall y cyhoedd gyflwyno sylwadau fel rhan o'r broses hon. Gall Aelod-wladwriaethau ddwyn i rym gymalau diogelu i gyfyngu ar y defnydd o organeddau a addaswyd yn enetig a

awdurdodwyd gan yr UE yn eu tiriogaeth, os daw tystiolaeth newydd o risg i iechyd pobl neu'r amgylchedd i'r amlwg.

57. Yn gynyddol, mae'r arfer ar lefel yr UE ynglŷn â rhyddhau organeddau a addaswyd yn enetig yn fwriadol i'r amgylchedd wedi symud i ffwrdd oddi wrth asesu risg yn wyddonol ar sail unigol, gyda nifer sylweddol o Aelod-wladwriaethau yn gwrthwynebu unrhyw gynnig i awdurdodi plannu cynydau GM yn fasnachol. Oherwydd y diffyg cytundeb gwleidyddol hwn, dim ond un cnwd GM sydd wedi cael ei gymeradwyo i'w dyfu ers 1998. Mae'r diffyg mynediad at farchnad ragweladwy yn atal buddsoddiad yn y broses o ddatblygu cynydau GM yn y dyfodol a all fod yn fuddiol i ffermwyr a defnyddwyr yr UE.

Gwastraff

58. Yn 2010 amcangyfrifwyd bod y DU wedi cynhyrchu cyfanswm o 259 miliwn tonn o wastraff, sef gostyngiad o 12 y cant ers 2008 (334 miliwn tonn) a 30 y cant ers 2004 (372 miliwn tonn). Y sector â'r cyfraniad mwyaf oedd y sector adeiladu a dymchwel gyda 106 miliwn tonn; cyfrannodd gwastraff cartref 29 miliwn tonn at y cyfanswm. Mae rheoli gwastraff yn gyfrifol yn hanfodol i leihau risgiau amgylcheddol a lleihau allyriadau i'r atffwrdd yn ogystal â lleihau defnydd ynni. At hynny gall ailgylchu ac aildefnyddio leihau'n sylweddol y defnydd o ddeunyddiau crai y mae pen draw iddynt. Mae'r ffordd y mae'r UE yn ymdrin â rheoli gwastraff yn seiliedig ar dair egwyddor: atal gwastraff; ailgylchu ac aildefnyddio, a gwella proesau gwaredu terfynol a monitro. Mae Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff 2008/98/EC yn nodi hierarchaeth gwastraff fanylach, gan gynnwys gofynion ar gyfer casglu mathau penodol o wastraff ar wahân; sefydlodd dargedau ailgylchu i Aelod-wladwriaethau hefyd.
59. Ochr yn ochr â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig mae pentwr o ddeddfwriaeth arall gan yr UE sydd wedi datblygu dros amser. Mae'n ymdrin â darpariaethau ategol ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff (e.e. gwastraff peryglus); mae'n nodi rheolau ynglŷn â gweithrediadau rheoli gwastraff penodol (e.e. llosgi gwastraff, a thirlenwi gwastraff), ac yn darparu rheolau ar gyfer sectorau penodol (e.e. gwaredu olewau gwastraff; pecynnu; cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff a batris a chronaduron). Mabwysiadwyd deddfwriaeth marchnad fewnol hefyd i sicrhau safonau cyffredin o fewn y farchnad fewnol ynglŷn â'r gallu i ailgylchu, a'r defnydd o ddeunyddiau peryglus sy'n achosi problemau ar gyfer gwaredu gwastraff, mewn amrywiaeth o gynhyrchion, gan gynnwys cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff, ceir a phecynnu. Mae'r rheolau hyn wedi'u cynllunio'n rhannol er mwyn diogelu'r amgylchedd ond maent hefyd yn chwarae rôl i sicrhau nad yw cyflwyno safonau gwahanol ar lefel Aelod-wladwriaeth neu ranbarthol yn achosi problemau o ran symud nwyddau yn ddirwystr yn y farchnad fewnol.
60. Mae gweithrediadau rheoli gwastraff ledled Ewrop yn canolbwyntio ar gyfyngu ar achosion o halogyddion yn mynd i mewn i ffrydiau gwastraff (e.e. drwy leihau'r defnydd o ddeunyddiau peryglus mewn cynhyrchion) a sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith er mwyn atal ein dyfroedd, aer ac iechyd pobl ac anifeiliaid rhag cael eu llygru. Mae gwaredu gwastraff yn briodol yn gost sylweddol i ddiwydiant a nod un gyfres o safonau ar gyfer gwaredu mathau penodol o wastraff yw ceisio sicrhau'r un amodau i bawb o ran cystadleuaeth. Mae'r UE yn adolygu ei bolisiau a'i ddeddfwriaeth ynglŷn â gwastraff gan gynnwys targedau allweddol yn y Cyfarwyddebau Fframwaith Gwastraff, Tirlenwi a Phecynnu a Phecynnu Gwastraff.

Diogelu natur / bioamrywiaeth

61. Mae prif ddeddfwriaeth yr UE i ddiogelu natur yn cynnwys Cyfarwyddeb Adar Gwyllt 79/409/EEC (wedi'i chodeiddio gan 2009/147/EC wedyn), a Chyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EEC. Mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn cynnwys amrywiaeth eang o rywmedigaethau gyda'r nod o ddiogelu amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau. Mae'r Gyfarwyddeb Adar Gwyllt yn diogelu pob rhywogaeth o adar sy'n digwydd yn naturiol ac yn nodi'r rhywogaethau prinnaf a'r rhywogaethau mudol sy'n ymddangos yn rheolaidd ar gyfer diogelwch ychwanegol. Gyda'i gilydd mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Adar Gwyllt yn diogelu bioamrywiaeth yn Ewrop drwy warchod cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt. Un o'r prif fesurau i gyflawni hyn yw drwy sefydlu rhwydwaith o safleoedd Ewropeaidd a warchodir (rhwydwaith Natura 2000) sef:
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar gyfer mathau penodol o gynefinoedd/rhywogaethau o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.
 - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, sy'n diogelu rhywogaethau penodol o adar gwyllt a'u cynefinoedd o dan y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt.
62. Mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried cydlyniaeth rhwydwaith Natura 2000 mewn polisïau cynllunio a datblygu, a dim ond ar ôl cadarnhau na fydd cynlluniau na phrosiectau yn effeithio'n andwyol ar gyfarwydd safle a warchodir (neu y mae'n rhaid eu cynnal serch hynny am resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig) y cytunir arnynt.
63. Mae rhwydwaith Natura 2000 yn gyflawn i raddau helaeth, ac eithrio yn y cyd-destun morol. Fel y'u dehonglwyd yn wreiddiol, nid ystyriwyd bod y Cyfarwyddebau yn gymwys i fôr tiriogaethol yr Aelod-wladwriaethau. Mae llysoedd y DU¹⁴ wedi cadarnhau bod y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn ymestyn y tu hwnt i ddyfroedd tiriogaethol i Sgafell Gyfandirol y DU ac i ddyfroedd arorweddol hyd at derfyn o 200 milltir o'r sylfaen y mesurwyd y môr tiriogaethol. Cadarnhawyd hyn wedyn gan Lys Cyfiawnder Ewrop (Achos C-6/04¹⁵). Erbyn hyn ystyrir bod y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn ymestyn y tu hwnt i ddyfroedd tiriogaethol, ond nid yw rhwydwaith Natura 2000 wedi'i sefydlu'n llawn eto ar y môr, ac erys tensiynau rhwng y Cyfarwyddebau hyn, y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a thargedau'r UE ynglŷn ag ynni adnewyddadwy e.e. datblygiadau ffermydd gwynt ar y môr.
64. Cynhaliodd Llywodraeth y DU Adolygiad o Weithredu'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Adar Gwyllt¹⁶ yn Lloegr rhwng mis Tachwedd 2011 a mis Mawrth 2012. Nododd hwn 28 o fesurau i wella'r ffordd y gweithredir y Cyfarwyddebau yn Lloegr a dyfroedd perthnasol y DU. Mae'r mesurau hyn yn dod o dan bedwar prif faes: hwyluso prosiectau seilwaith o bwys cenedlaethol; gwella prosesau gweithredu a symleiddio canllawiau; gwella ansawdd data, maint data a rhannu data, a gwella profiad y cwsmer.
65. Canfu'r Adolygiad yn y mwyafrif helaeth o achosion fod gweithrediad y Cyfarwyddebau yn gweithio'n dda, ond mewn rhai achosion fod costau ac oedi yn deillio o'r broses weithredu. O ganlyniad i'r adolygiad mae Uned Seilwaith Mawr a'r Amgylchedd newydd wedi'i sefydlu yn Defra er mwyn helpu i ddatrys problemau cyn gwneud cais, ac mae

¹⁴ *R v Secretary of State for Trade & Industry & ors, ex parte Greenpeace Ltd* (1999).

¹⁵ <http://curia.europa.eu/juris/liste.jsf?language=en&num=C-6/04>

¹⁶ www.gov.uk/government/publications/report-of-the-habitats-and-wild-birds-directives-implementation-review

Grŵp Tystiolaeth Morol wedi'i sefydlu er mwyn helpu i wella ansawdd y dystiolaeth a faint o dystiolaeth sydd ar gael sy'n berthnasol i safleoedd a rhywogaethau a warchodir yn yr amgylchedd morol. Mae amrywiaeth o ganllawiau cysylltiedig yn cael eu llunio hefyd, a fydd, er eu bod yn gyson â'r gofynion cyfreithiol hyn, yn annog rheoleiddwyr hefyd i fod yn ymarferol wrth eu gweithredu er mwyn peidio ag atal datblygiad yn ddiangen nac ychwanegu at ei gost.

66. Yn 2001 cymeradwyodd Penaethiaid Gwladwriaethau'r UE y nod o atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth yn yr UE erbyn 2010 ac adfer cynefinoedd a systemau naturiol¹⁷. Cafodd cynnydd ei wneud mewn rhai meysydd ond ni chyflawnwyd y targed cyffredinol ac erys colli bioamrywiaeth Ewrop yn broblem barhaus. Gwelir dirywiad nodedig mewn rhywogaethau mewn ardaloedd amaethyddol a glastiroedd, yn bennaf oherwydd ffermio dwys ac arferion rheoli tir anghynaliadwy. Cytunodd Gweinidogion Amgylchedd yr UE ar darged bioamrywiaeth newydd ym mis Mawrth 2010 i atal colli bioamrywiaeth a diraddio gwasanaethau ecosystemau erbyn 2020 a'u hadfer hyd y gellir, yn ogystal â chynyddu cyfraniad yr UE i osgoi colli bioamrywiaeth yn fyd-eang. Roedd y penderfyniad i ychwanegu gwasanaethau ecosystemau yn benodol at y targed yn adlewyrchu'r gydnabyddiaeth gynyddol o werth bioamrywiaeth i gymdeithas a gwerth economaidd bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau yn y broses bolisi. Cymeradwywyd strategaeth fioamrywiaeth newydd hyd at 2020 gyda nifer o dargedau, camau gweithredu a mesurau, gan Gyngor yr Amgylchedd yn 2011. Fodd bynnag, erys y broses o weithredu'r mesurau sy'n bodoli eisoes yn her o hyd, tra ar yr un pryd mae cynigion newydd yn cael eu datblygu i ymdrin â phroblemau megis rhywogaethau anfrodorol goresgynnol.


¹⁷ <http://ec.europa.eu/environment/biodiversity/international/>

Adar

Mae poblogaethau o adar yn cael eu hystyried yn ddangosydd da o gyflwr cyffredinol bywyd gwyllt a chefn gwlad am eu bod yn bresennol mewn amrywiaeth eang o gynefinoedd ac yn tueddu i fod wrth frig y gadwyn fwyd; maent hefyd yn sgorio'n uchel o ran llawer o'r meini prawf eang a ddiffinnir ar gyfer dewis dangosyddion bioamrywiaeth¹⁸. Yn 2012 roedd poblogaethau o adar ffermdir bridio yn y DU dros 50% yn is nag yr oeddent yn 1970¹⁹. Digwyddodd y dirywiad mwyaf rhwng diwedd y 70au a dechrau'r 90au, ond bu dirywiad o 9.4% yn gyffredinol hefyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Roedd poblogaethau o adar coetir bridio yn y DU 19.4% yn is yn 2010 nag yr oeddent yn 1970. Yn 2010 roedd poblogaethau o adar dŵr ac adar gwlyptiroedd yn y DU 4.3% yn is nag yr oeddent yn 1975²⁰. Mewn termau absoliwt, mae'r DU wedi colli dros 44 miliwn o adar bridio o fewn llai na hanner canrif, gan gynnwys 50 o adar y to bob awr ar gyfartaledd. Ar y llaw arall, roedd poblogaethau o adar môr bridio ac adar dŵr sy'n gaeafu yn y DU yn 2010 30% ac 83% yn uwch nag yr oeddent yn 1970²¹. Mae i ddirywiad mewn adar oblygiadau ecolegol o ran prosesau ecosystemau, yn enwedig dadelfeniad, llygredd a gwasgaru hadau.

Graff tri: Poblogaethau o adar gwyllt yn y DU, 1970-2010

Mynegai (1970=100), adar dŵr ac adar gwlyptiroedd (1975=100)



Ffynhonnell: Defra 2012: <https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs/about/statistics>

Adar môr (19)
 Pob aderyn (121)
 Adar dŵr ac adar gwlyptiroedd (26)
 Adar coetir (38)
 Adar ffermdir (19)

Sŵn

67. Effeithiau sŵn ar iechyd, ansawdd bywyd, lles, amwynder a'r amgylchedd naturiol. Nodir polisi'r Llywodraeth ynglŷn â sŵn yn y Datganiad Polisi am Sŵn i Loegr²²; mae

¹⁸ www.birdlife.org/action/science/indicators/birds_as_indicators.html

¹⁹ www.rspb.org.uk/Images/SUKB_2012_tcm9-328339.pdf

²⁰ www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs/about/statistics

²¹ Ibid.

²² www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69533/pb13750-noise-policy.pdf

gan y gweinyddiaethau datganoledig eu polisïau cyfatebol eu hunain. Mae Cyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol 2002/49/EC yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau fapio sŵn o'r sector trafndiaeth, diwydiant ac mewn ardaloedd trefol mawr, i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd a llunio cynlluniau gweithredu i reoli, ac os oes angen, liniaru'r effeithiau niweidiol. Mae allyriadau sŵn hefyd wedi bod yn ddarostyngedig i safonau cynnyrch y farchnad fewnol, ac mae sŵn awyrennau yn berthnasol i'r Adroddiad ar Drafndiaeth.

Asesiad o'r effaith amgylcheddol

68. Mae darpariaethau asesiad o'r effaith amgylcheddol yn sicrhau bod caniatadau prosiectau yn cael eu rhoi gyda gwybodaeth lawn am unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd a bod y cyhoedd yn cymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn gymwys i brosiectau sy'n amrywio o brosiectau seilwaith ar raddfa fawr megis gorsafoedd pŵer neu safleoedd diwydiannol i brosiectau bach megis ystâd dai neu ffatri fach, yn ogystal â phrosiectau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd sy'n amgylchedd-sensitif. Nodir y broses yng Nghyfarwyddeb Asesu Effaith Amgylcheddol (AEA) 2011/92/EU. Mae cynnig i ddiwygio'r Gyfarwyddeb wrthi'n cael ei gyd-drafod.
69. Cynhelir **asesiad amgylcheddol strategol (AAS)** (Cyfarwyddeb 2001/42/EC) ar gyfer cynlluniau neu raglenni sy'n ymestyn dros ardal lawer ehangach. Cânt eu paratoi ar gyfer amrywiaeth eang o faterion gan gynnwys amaethyddiaeth, trafndiaeth, twristiaeth, neu gynllunio defnydd tir yn y dyfodol. Er enghraifft byddai awdurdod lleol sy'n paratoi cynllun lleol hefyd yn paratoi AAS ar gyfer y cynllun hwnnw a sicrhau ei fod yn ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn â'r ddwy ddogfen. Byddai llywodraeth genedlaethol sy'n llunio strategaeth ynni genedlaethol hefyd yn dilyn proses AAS.
70. Mae'r elfennau o'r Gyfarwyddeb AEA a'r Gyfarwyddeb AAS sy'n ymwneud â **chyfranogiad cynnar y cyhoedd** yn deillio o Gonfensiwn Aarhus²³ sy'n sefydlu hawl i gymryd rhan mewn gweithdrefnau gwneud penderfyniadau amgylcheddol. Yn ystod cyfnod asesu'r prosiect, y cynllun neu'r rhaglen, mae'n rhaid i'r cyhoedd dan sylw gael y wybodaeth ddiweddaraf a chael cyfle i wneud sylwadau ynglŷn â'r cynigion, gyda'r nod o alluogi awdurdodau cymwys a datblygwyr i wneud penderfyniadau hyddysg. Mae darpariaethau Confensiwn Aarhus ynglŷn â **mynediad at wybodaeth amgylcheddol** hefyd wedi'u rhoi ar waith yn yr UE drwy Gyfarwyddeb 2003/4/EC ynglŷn â hawl y cyhoedd i weld gwybodaeth amgylcheddol.

Rhwymedigaeth amgylcheddol

71. Nod Cyfarwyddeb 2004/35/EC yw sefydlu fframwaith o rwymedigaethau amgylcheddol cyffredin i'r UE yn seiliedig ar yr egwyddor "y llygrwr sy'n talu", i'w gwneud yn ofynnol i weithredwyr gweithgareddau galwedigaethol a nodwyd atal neu unioni niwed i rywogaethau a chynefinoedd a warchodir, i adnoddau dŵr, ac mewn perthynas â halogi tir lle y bo risg sylweddol o effeithiau niweidiol ar iechyd pobl. Mae'r cynllun yn cwmpasu gweithgareddau galwedigaethol penodol a nodwyd sy'n ddarostyngedig i rwymedigaeth lem a gweithgareddau eraill mewn achosion lle mae'r gweithredwr ar fai neu'n esgeulus. Yn gyffredinol, mae awdurdodau cymwys yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gymryd

²³ Confensiwn y CE: 'Access to Information, Public Participation in Decision-Making, and Access to Justice in Environmental Matters':

camau ataliol lle mae perygl uniongyrchol o niwed neu gymryd camau i unioni unrhyw niwed; a thalu am gostau'r camau a gymerwyd ganddynt.

Trosedd amgylcheddol

72. Mae Cyfarwyddeb 2008/99/EC yn cwmpasu gweithredoedd sy'n torri deddfwriaeth amgylcheddol ac sy'n achosi niwed neu risg sylweddol i'r amgylchedd ac iechyd pobl, e.e. allyrru neu ollwng sylweddau i mewn i'r aer, dŵr neu bridd yn anghyfreithlon, masnachu'n anghyfreithlon mewn bywyd gwyllt, masnachu'n anghyfreithlon mewn sylweddau sy'n teneuo'r osôn a chludo neu waredu gwastraff yn anghyfreithlon. Mae'r Gyfarwyddeb yn rhoi rhestr o'r holl weithredoedd hynny y mae'n rhaid eu hystyried yn droseddau ym mhob un o Aelod-wladwriaethau'r UE ac y mae'n rhaid i'r troseddwyr fod yn atebol amdanynt. Yr Aelod-wladwriaethau sy'n penderfynu ar fanylion gweithdrefnau troseddol a lefelau cosbau, yn amodol ar y ddarpariaeth y dylai troseddwyr wynebu 'cosbau effeithiol, cymesur ac anghymhellol'.

Y dimensiwn allanol

73. Mae'r UE yn chwarae rôl weithredol yn y gwaith o reoleiddio a gweithredu cytundebau rhyngwladol sy'n ymwneud â'r amgylchedd. Mae hyn yn gyson ag Erthygl 3(5) TEU, sy'n nodi y dylai'r UE gyfrannu at ddatblygu'r Ddaear mewn modd cynaliadwy. Mae Erthygl 21(2) TEU hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd ystyriaethau amgylcheddol cydberthnasau rhyngwladol yr UE: "The Union . . . shall work for a high degree of cooperation in all fields of international relations, in order to: (f) help develop international measures to preserve and improve the quality of the environment and the sustainable management of global natural resources, in order to ensure sustainable development".
74. Rhoddwyd sylfaen Cytuniad benodol i gymhwysedd allanol yr UE am y tro cyntaf yn 1987 gan y Ddeddf Ewropeaidd Sengl; cyn hynny roedd yr UE wedi ymrwmo i gytundebau amgylcheddol â thrydydd gwledydd ar sail cymhwysedd allanol ymhlyg mewn meysydd lle roedd yr UE eisoes wedi gweithredu mesurau mewnol ar sail cymhwysedd mewnol neu lle roedd angen arfer pwerau allanol i gyflawni amcanion yr UE. Erbyn hyn mae Erthygl 191(4) yn nodi cwmpas cymhwyseddau'r UE ar gyfer cydberthnasasu allanol:

"Within their respective spheres of competence, the Union and the Member States shall cooperate with third countries and with the competent international organisations. The arrangements for Union cooperation may be the subject of agreements between the Union and the third parties concerned.

The previous subparagraph shall be without prejudice to Member States' competence to negotiate in international bodies and to conclude international agreements."

75. Gall Aelod-wladwriaethau a'r UE fabwysiadu cytundebau rhyngwladol ym maes diogelu'r amgylchedd ond dim ond i'r graddau nad yw'r UE wedi arfer ei gymhwysedd y gall Aelod-wladwriaethau arfer eu cymhwysedd. Mae gan yr UE gymhwysedd cyfyngol ar gyfer llunio cytundeb rhyngwladol os darperir ar gyfer llunio'r cytundeb yn neddfwriaeth yr UE neu lle mae ei angen er mwyn galluogi'r UE i lunio rheolau mewnol, neu i'r graddau y gall llunio'r cytundeb effeithio ar reolau cyffredin yr UE neu newid eu cwmpas (Erthygl 3(3) TFEU). Lle mae'r UE wedi gosod rheolau cysoni mewnol sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd, ni fydd gan Aelod-wladwriaethau y cymhwysedd

mwyach i lunio cytundebau rhyngwladol sy'n effeithio ar y rheolau hynny. Fodd bynnag, os mai dim ond safonau gofynnol ynglŷn â diogelu'r amgylchedd a osodwyd gan yr UE, mae Aelod-wladwriaethau yn cadw'r pŵer i lunio cytundebau amgylcheddol sy'n sefydlu safonau eraill ar yr amod nad yw'r rhain yn anghydnaws â safonau'r UE.

76. Mae'r UE yn barti mewn sawl cytundeb amgylcheddol amlochrog, gan gynnwys, er enghraifft, Confensiwn Fienna (1985) er Diogelu'r Haen Osôn, Protocol Montreal (1987) ynglŷn â Sylweddau sy'n Teneuo'r Haen Osôn a Chonfensiwn Basel (1989) ynglŷn â Rheoli Symudiadau Trawsffiniol o Wastraff Peryglus (gweler yr atodiad cyfreithiol). Fodd bynnag dim ond os yw'r bartion eraill yn cytuno y gall yr UE ddod yn barti mewn cytuniad. Felly nid yw'r UE wedi cael caniatâd eto i ymuno â Chonfensiwn Washington (1973) ynglŷn â'r Fasnach Ryngwladol mewn Rhwyogaethau o Ffawna a Fflora Gwyllt sydd mewn gydnwyl fel bloc, gyda chytundeb ynglŷn â safbwynt yr UE yn cael hyspwrdd (CITES) (er bod hyn yn gonsensws ymhlith yr Aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn digwydd). Fodd bynnag, gan fod hwn yn faes o gymhwysedd a rennir, lle mae'r mae'r UE yn cymhwysed Aelod-wladwriaethau yn Bartion yn y Cytuniadau, cytunwyd ar mesurau sy'n cyfarhwydd drafod yr UE ar ffurf Casgliadau Cyngor yr UE sy'n ddarpariaethau'r crynhoi materion sydd o fewn cymhwysedd yr UE a materion sydd o Confensiwn hwn cymhwysedd Aelod-wladwriaethau. Yn hytrach na'r Comisiwn yn unochrog, drwy'r Reola 338/97, ac yn ymarferol lle mae aelodau'r Comisiwn a chynrychiowyr o rai Aelod-wladwriaethau yn cydweithio mewn trefniant "Tîm yr UE".

perthynas â'r Comisiwn hwn yn gofyn am gydgyssylltu parhaus gan yr UE, sy'n drwy'r Aelod-wladwriaethau. Mae'r UE yn hyspwrdd i gyd-drafodaethau â'r Cenedloedd Unedig ddynesu. Yn hyspwrdd ymlynau Confensiwn Fframwaith y Cenedloedd Unedig ar hyspwrdd yn sylweddol yn Hinsawdd mae'r Comisiwn a'r Aelod-wladwriaethau yn hyn o bryd, ond mae wedi ffordydd cydgysylltu dyddiol er mwyn llunio barn gyffredin ar cael hawliau ychwanegol perthnasol. Gwahoddir pob Aelod-wladwriaeth i gymryd rhan gyfranogi, yn nhiryn y cyd-drafod yr UE (neu "Tîm yr UE") yn Nghonfensiwn Nghynulliad Amgylchedd Cenedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd. Dyna'r ffurfiog hyspwrdd gall yr Aelod-wladwriaethau ddylanwadu ar farn yr UE. Amgylchedd Mae'r DU wedi derbyn y gwahoddiad hwn i fod yn rhan o Dîm yr UE Cenedloedd Unedig. Mae'r DU yn un o'r Chyd-drafodwr Arweiniol yr UE yn dod o'r DU, a hefyd un o gydgysylltwyr clwstwr yr UE. Mae sawl swyddog arall o'r DU yn

77. Nid yw Cytuniad Lisbon fel Swyddogion Arweiniol ar Faterion, fel Canolbwyntiau yn darparu ac yn hyspwrdd rhan mewn grwpiau lefel arbenigol yr UE, gan gynnwys drefniadau periodol ar gyfer rheoli'r cymhwysedd a rennir gan yr UE a'i Aelod-wladwriaethau mewn cyd-drafodaethau rhyngwladol megis y rhai sy'n ymwneud â Chonfensiwn Fframwaith y Cenedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd a'r Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol, lle y mabwysiadwyd dull gweithredu ymarferol.

78. O dan Gonfensiwn Fframwaith y Cenedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd mae'r DU hefyd yn ymrwymedig (ar y cyd â gwledydd datblygedig) i ysgogi'r defnydd o USD 100bn o gyllid cyhoeddus a phreifat y flwyddyn erbyn 2020 ar fesurau ystyrllon i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ac addasu ar ei gyfer. Bydd y DU yn darparu £2.9bn o gyllid hinsawdd rhyngwladol drwy ein Cronfa Hinsawdd Ryngwladol erbyn mis Mawrth


2015. Caiff llawer o'r cyllid hwn ei wario ar brosiectau mewn gwledydd datblygol ac, fel y cyfryw, mae cyllid hinsawdd yn dod o dan faes 'cymorth datblygu cydweithredu a dynnol' o dan Erthygl 4(4) o TFEU, sy'n golygu, er bod gan yr UE gymhwysedd i ymgymryd a gweithgareddau a chynnal polisi cyffredin, nad yw arfer y cymhwysedd hwn yn atal y DU rhag arfer ei cymhwysedd ei hun yn y maes hwn.

A MYND I'R AFael A DADGOEDWIGO BYD-EANG: FLEGT - ASTUDIAETH ACHOS

IE yn un o'r defnyddwyr mwyaf o goed yn y byd i gan ddefnyddio tua 35% o gynhyrchion goedwig y DU. Er bod coedwigaeth yn dal yn un o gymhwyseddau'r Aelod-wladwriaethau, mae masnach yn un o'r seddau'r UE. Mae gan yr UE gymhwysedd ddatblygu cyfnewid a masnach aethrydd ar y cyd â masnach Aelod-wladwriaethau. Mae'n dal i'w parhysu, os tuedd pobol yn ddatblygu Cytundebau Masnach eithlon.

Rydd yr UE a gyd-drafodwyd hyd yma yn cynnwys pennod ar ddatblygu cynaliadwy sy'n darnaru ar gyfer cydweithredu ar faterion amgylcheddol. Mae'r UE hefyd wedi llunio nifer o cytundebau dwyochrog a ddwydddarer mewn atal torri a thrin coed yn anghyfreithlon. Mae hyn yn faes lle mae'r Comisiwn a'r Aelod-wladwriaethau yn cydweithio o fewn eu priod-gymhwysedd (gweler yr astudiaeth achos).

y'n arwain y gwaith ar ddatblygu'r cytundebau dwyochrog rhwng yr UE a'r gwledydd sy'n gynhyrchwyr, e Aelod-wladwriaethau wedi gweithio gyda'r Comisiwn i ddatblygu'r cytundebau ac i helpu gwledydd nhyrchwyr sefydlu cynlluniau sicrhau cyfreithlondeb. Mae Aelod-wladwriaethau hefyd yn gyfrifol am du a gorfodi Rheoliad FLEGT yn eu tiriogaethau, gan bennu cosbau a rhoi pwerau i gyrrff gorfodi ethol ymchwilio a, lle y bo angen, atafaelu pren anghyfreithlon.



Datblygu polisiâu a strategaethau anneddfwriaethol yn y dyfodol

- 80. Sefydlodd Cytuniad Maastricht (1993) sylfaen Cytuniad ar gyfer y cysyniad o raglenni gweithredu amgylcheddol - er yn ymarferol maent wedi'u mabwysiadu gan yr UE ers y 1970au i bennu strategaeth eang ar gyfer datblygu polisi'r UE ynglŷn â'r amgylchedd. Mae cyd-drafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd ynglŷn â'r 7fed Raglen Weithredu Amgylcheddol, sy'n amlinellu fframwith cyffredin o bosibl i bolisi'r UE ynglŷn â'r amgylchedd hyd at 2020. Ei nod yw sefydlu naw amcan blaenoriaethol i bolisi'r UE ynglŷn â'r amgylchedd; ymhlith yr elfennau allweddol mae gwella'r ffordd y gweithredir deddfwriaeth amgylcheddol a lleihau achosion o wrthdaro rhwng deddfwriaeth amgylcheddol a thwf.
- 81. At hynny, mae nifer o feysydd lle mae'r Comisiwn wedi cynnig strategaethau anneddfwriaethol fel dull o sicrhau cynnydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

Defnydd o adnoddau/effeithlonrwydd

82. Mae Prif Fenter Effeithlonrwydd Adnoddau o dan Strategaeth 2020 Ewrop yn nodi fframwaith polisi strategol i sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau naturiol a newid tuag at dwf sy'n effeithlon o ran adnoddau Cynheddwad Map ffordd i Ewrop sy'n Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon yn 2012²⁴. Mae'r DU yn gweithredu mewn partneriaeth â diwydiant i ddatblygu dulliau gweithredu polisi a rheoli sy'n rhwyngor (e.e. drwy Raglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Fyd-eang (e.e. drwy Adnoddau) er mwyn annog busnesau gyfer Nwyddau a ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon er mwyn Gwasanaethau Amgylcheddol Carbon a sel drosiant amcangyfrifedig o £3.3b yn sicrhau eu bod yn manteisio ar y cyfleoedd ar 2010/11, cydag Ewrop yn cyrif am tua gyfer twf a chystadleurwydd a rheoli risgiau sy'n 28% o werthiannau. Trosiant y DU ar gysylltiedig â'r cyflenwad o ddeunyddiau. LCEGS oedd £122.2bn a Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Sicrwydd gyfer y sector rhagwelir cyfradd twf o tua 5% hyd at Adnoddau'r DU ym mis Mawrth 2012²⁵.

Eco-arloesi

83. Mae'r Cynllun Gweithredu Eco-Arloesi²⁶ o gyfrif y farchnad fyd-eang. Yn y pwysleisio pwysigrwydd ymchwil ac arddeusi sector rheoli gwastraff ac greu technolegau mwy arloesol a'u cyflwyno yn y farchnad. Mae'r DU yn cefnogi'r fenter hon ar y cyflogi dros 100,000 o bobl a'u hysbrychu gwerthiannau gwerth cyfan, gan annog y Comisiwn i ganolbwyntio ar dros £12bn a rhagwelir y bydd yn tyfu 3-4% y flwyddyn. ddileu rhwystrau i fasnach, cydweithio a chynffwrdd rhyngwladol i sicrhau'r un amodau i bawb dros y byd a sicrhau y caiff ei gynigion eu cydgysylltu â mentrau eraill megis y Map ffordd i Ewrop sy'n Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon.

Addasu at newid yn yr hinsawdd

84. Gan adeiladu ar ymrwymïadau ym Mhapur Gwyn yr UE ar Addasu (2009), mae addasu at newid yn yr hinsawdd yn Ewrop wedi canolbwyntio hyd yma ar ddatblygu Strategaeth Addasu i'r UE, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2013. Mae'r strategaeth yn aneddfwriaethol ac mae'n canolbwyntio ar nodi'r prif heriau o ran newid yn yr hinsawdd i Ewrop ar lefel fyd-eang ac ar lefel ranbarthol. Mae'n canolbwyntio ar brif ffrydio addasu ym mholisiau a sefydliadau'r UE, gan annog pob Aelod-wladwriaeth i fabwysiadu strategaethau addasu a hyrwyddo LIFE fel adnodd ariannu ar gyfer y strategaethau hynny. Drwy greu dealltwriaeth gyffredin gref o gyfleoedd a risgiau ar y lefel Ewropeaidd, dylai'r UE fod yn gallu ategu'n effeithiol gamau gweithredu sydd eisoes yn cael eu cymryd gan Aelod-wladwriaethau ar lefel genedlaethol.

²⁴ http://ec.europa.eu/environment/resource_efficiency/pdf/com2011_571.pdf

²⁵ www.gov.uk/government/publications/resource-security-action-plan-making-the-most-of-valuable-materials

²⁶ http://ec.europa.eu/environment/ecoap/index_en.htm

Cais am dystiolaeth - cwestiynau

Lle y bo modd, rhowch dystiolaeth feintiol a/neu ansoddol (e.e. ymchwil gyhoeddedig) i ategu'ch atebion. Lle nad oes modd gwneud hynny, defnyddiwch a disgrifiwch eich gwybodaeth neu eich profiad. Gweler y diffiniad o gymhwysedd ar dudalen 4.

Manteision ac anfanteision

1. Pa dystiolaeth sydd fod cymhwysedd yr UE ym maes yr amgylchedd a/neu newid yn yr hinsawdd wedi:
 - i. bod yn fuddiol i'r DU / eich sector?
 - ii. rhoi'r DU / eich sector o dan anfantis?

Ble y dylai penderfyniadau gael eu gwneud?

2. Gan ystyried enghreifftiau penodol, sut y byddai'n fwy buddiol i'r DU pe bai penderfyniadau:
 - i. a wneir ar hyn o bryd ar lefel yr UE yn cael eu gwneud ar lefel genedlaethol, rhanbarthol neu ryngwladol yn lle hynny? (Pa fesurau, os o gwbl, y byddai eu hangen yn absenoldeb deddfwriaeth yr UE?)
 - ii. a wneir ar hyn o bryd ar lefel arall yn hytrach nag ar lefel yr UE?

Marchnad fewnol a thwf economaidd

3. I ba raddau y mae angen safonau amgylcheddol yr UE, yn eich barn chi ar gyfer gweithredu'r farchnad fewnol yn briodol?
4. I ba raddau y mae deddfwriaeth yr UE ar yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd yn rhoi'r cydbwysedd cywir rhwng diogelu'r amgylchedd a budd economaidd ehangach y DU?

Deddfwriaeth gyfredol

5. Gan ystyried enghreifftiau penodol, i ba raddau y mae deddfwriaeth yr UE ynglŷn â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd, yn eich barn chi:
 - i. yn canolbwyntio ar ganlyniadau?
 - ii. yn seiliedig ar asesiad o risg a thystiolaeth wyddonol?

Gwneud pethau'n wahanol

6. Sut y gallai cymhwysedd cyfredol yr UE dros yr amgylchedd gael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol? (e.e. ffyrdd gwell o ddatblygu cynigion a/neu asesiadau o effaith, mwy o gydnabyddiaeth o amgylchiadau cenedlaethol, dulliau gweithredu amgen yn lle deddfwriaeth i ddiogelu/gwella'r amgylchedd?)
7. I ba raddau y byddai'r DU yn cael budd, yn eich barn chi, pe bai'r UE yn cymryd:
 - i. Mwy o gamau gweithredu ynglŷn â'r amgylchedd/newid yn yr hinsawdd?
 - ii. Llai o gamau gweithredu ynglŷn â'r amgylchedd/newid yn yr hinsawdd?

8. A oes unrhyw ffyrdd amgen y gallai'r DU fynd at er mwyn gweithredu Cyfarwydebau'r UE ynglŷn â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd?
9. a. Pa fanteision neu anfanteision a allai godi pe bai'r UE yn cael mwy neu lai o rôl yn y broses o gyd-drafod a llunio cytundebau'n rhyngwladol neu â thrydydd gwledydd?
b. Pa mor bwysig ydyw i'r DU fod yn rhan o "Dîm yr UE" yng Nghonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd

Heriau a chyfleoedd yn y dyfodol

10. a. Pa heriau neu gyfleoedd y gallwn eu hwynebu yn y dyfodol o ran diogelu'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd?
b. Yn y dyfodol, beth yw'r cydbwysedd cywir rhwng y camau gweithredu a gymerir ar lefel ryngwladol, yr UE, y DU a diwydiant, yn eich barn chi, er mwyn ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd hyn?
c. Beth fyddai costau a buddiannau ymateb i'r heriau hyn yn y dyfodol ar lefel yr UE i'r DU?

Unrhyw beth arall?

11. A oes unrhyw bwyntiau cyffredinol yr hoffech eu gwneud nad ydynt wedi'u cynnwys mewn unrhyw un o'r cwestiynau uchod?

(h) Hawlfraint y Goron 2013

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu ysgrifennwch at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn hefyd ar gael ar ein gwefan yn: consult.defra.gov.uk/eu/balance_of_competences

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn atom yn: balanceofcompetences.enviro@defra.gsi.gov.uk

PB 13916